Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Fframwaith Cyllido Ôl-16

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn berthnasol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................................................4

Ymagwedd at gynllunio....................................................................................................4

Dull cyllido .....................................................................................................................5

A. Methodoleg dyraniadau ...............................................................................................5

B. Cyllid Rhaglenni ........................................................................................................6

C. Cyfeiriadur Rhaglenni ................................................................................................7

D. Components of a full-time learning programme ............................................................7

Nodau rhaglenni amser llawn ...........................................................................................9

A. Rhaglenni Lefel Mynediad ..........................................................................................10

B. Rhaglenni Lefel 1 ......................................................................................................10

C. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 1-2...............................................................................10

D. Rhaglenni Lefel 2 ......................................................................................................10

E. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 2-3...............................................................................11

F. Rhaglenni Lefel 3 .......................................................................................................11

G. Rhaglenni Lefel 4 ......................................................................................................11

H. Rhaglen y Dyfodol.......................................................................................................11

I. Rhaglenni Mynediad i Addysg Bellach ..........................................................................11

J. Rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch .............................................................................12

K. Rhaglenni Estynedig ...................................................................................................12

L. Rhaglenni Dysgu Cynyddol yn y Gweithle .....................................................................12

M. Prentisiaethau Iau ......................................................................................................12

Gofynion o ran Codau Rhaglen .........................................................................................13

A. Yr estyniadau 2 nod ar godau rhaglen (AB yn unig) ........................................................13

B. Cymysgu cymwysterau UG/U2 a chymwysterau galwedigaethol cyffredinol .......................13

Darpariaeth ran-amser......................................................................................................15

A. Addysg Sylfaenol i Oedolion (ABE) a Pharatoi am Fywyd a Gwaith (PREP) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned) ...........................................................................................15

B. Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned) ........15

C. Ailsefyll TGAU (TGAU-A) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned).......................................16

D. Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs) (AB yn unig) .......................................................16

E. Blaenoriaethau Lleol Eraill (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned).....................................16

F. Y Cyfrif Dysgu Personol (AB yn unig)..............................................................................17

G. Lleoliadau Profiad Gwaith (AB yn unig)...........................................................................17

Diwygiadau i Raglenni .......................................................................................................18

A. Tynnu'n Ôl ..................................................................................................................18

B. Trosglwyddiadau ..........................................................................................................19

Tystiolaeth o oriau ac amserlen y Rhaglen ..........................................................................19

Math o ddarpariaeth a goblygiadau pellach ....20
A. Darpariaeth Amser Llawn ....20
B. Darpariaeth Ran-amser ....21
C. Darpariaeth Anghymwys ....21
Cymhwystra dysgwyr ....22
A. Cyflwyniad ....22
B. Dysgwyr o'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ....22
C. Cymhwystra Preswylio ....23
D. Diffiniad o fod yn Preswylio Fel Arfer ....23
E. Dysgwyr sy'n Gymwys i gael Cyllid ....24
F. AEE, Y Swistir a'r Tiriogaethau Tramor ....28
G. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus ....28
H. Oedran ....28
I. Dysgwyr dan 16 ....28
J. Dysgwyr o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ....29
K. Dysgwyr Addysg Uwch (AU) ....29
L. Ymrestru gyda mwy nag un darparydd a gyllidir gan Medr ....30
M. Darpar rieni ....30
N. Darpariaeth i Droseddwyr ....30
O. Dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cyllid Medr ....30
P. Tystiolaeth o Gydymffurfio â Rheolau Cymhwystra Dysgwyr ....31
Q. Cytundeb Dysgu a Ffurflenni Ymrestru ....31
Manylion cyswllt ....32
Atodiad A: Cylch cynllunio a chyllido ....33
Atodiad B: Diffinio tiriogaethau dibynnol yr UE, yr AEE a thiriogaethau tramor cymwys ar 31 Rhagfyr 2020 ....34
A. Aelod-wladwriaethau'r UE ....34
B. Nodiadau ar rai tiriogaethau sydd o fewn yr UE ....34
C. Aelod-wladwriaethau'r AEE ....35
D. Tiriogaethau tramor cymwys ....35
Atodiad C: Llofnodion electronig ....36
A. Tystio llofnodion electronig ....36
B. Tystiolaeth amgen ar gyfer llofnodion electronig neu ddigidol ....36
Atodiad D: Rhestr o ddarpariaeth gyffredin ar gyfer hyfforddiant diogelwch yn y gweithle ....38

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyllido addysg a hyfforddiant ôl-16 a ddarperir gan y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdodau Lleol, sefydliadau Addysg Bellach, a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae'n egluro'r egwyddorion, y methodolegau a'r prosesau sy'n llywodraethu'r modd y caiff cyllid cyhoeddus ei ddyrannu a'i ddefnyddio, a sut y rhoddir cyfrif amdano, ar draws y system ôl-16. Bwriedir i'r ddogfen fod o gymorth i ddarparwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid ddeall sut y caiff penderfyniadau ariannu eu gwneud a sut maen nhw'n cyfrannu at flaenoriaethau ehangach i ddysgwyr, cymunedau a'r economi. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gymhwysedd i dderbyn cyllid yn gysylltiedig â dysgwyr a darpariaeth.

Ceir trefniadau cyllido ar wahân ar gyfer prentisiaethau, darpariaeth Cymraeg i Oedolion a rhaglenni Addysg Uwch, sydd y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn.

Cynlluniwyd y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyfeirio ymarferol i arweinwyr, cyllid a rheoli timau gwasanaethau gwybodaeth, cynllunwyr y cwricwlwm, a staff gweithredol. Mae'n creu sylfaen gyson ar gyfer penderfyniadau, ond yn cadw cyfle i addasu a mireinio wrth i bolisi, anghenion dysgwyr a gofynion y farchnad lafur esblygu. Cyhoeddir diweddariadau pellach yn ôl yr angen, ac anogir darparwyr i gyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â threfniadau cyllido.

Er mwyn symleiddio'r canllawiau, defnyddir y term 'darparydd' yn lle cyfeirio dro ar ôl tro at y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Bydd y mathau unigol o ddarparwyr yn cael eu defnyddio lle nad yw'r canllawiau cyllido ond yn berthnasol i fath penodol o sefydliad. Yn yr un modd, bydd y term 'dysgwyr' yn berthnasol i bob dysgwr, myfyriwr a disgybl.

## Ymagwedd at gynllunio

Nod y fframwaith yw sefydlu strategaeth gydlynol er mwyn cynllunio ar draws y sectorau ôl-16. Ei nod yw llywio penderfyniadau ynghylch creu rhaglenni dysgu ôl-16 a'r modd y dosberthir cyllid, gan sicrhau bod pob darparydd a gyllidir gan Medr yn gwasanaethu ei gymunedau'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, bydd y broses gynllunio yn cael ei defnyddio i asesu darpariaeth i ddysgwyr yn unol â blaenoriaethau strategol Medr.

Mae Cynllun Strategol cyntaf Medr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2025, yn nodi ein cyfrifoldeb statudol i ddadansoddi darpariaeth addysg drydyddol ledled Cymru. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i sefydlu yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac mae'n berthnasol i'r holl ddarparwyr y mae Medr yn eu rheoleiddio a'u cyllido. yn rhan o rhan o *Telerau ac Amodau Grant*, mae'n ofynnol i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth sy'n galluogi Medr i gynnal y dadansoddiad hwn yn effeithiol.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae Medr yn casglu data drwy'r Templedi Cynllunio blynyddol. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i:

- Ddeall darpariaeth addysg drydyddol drwy ddadansoddi darpariaeth hanesyddol, gyfredol, a chynlluniedig ar draws y sector.

- Nodi bylchau ac achosion o ailadrodd er mwyn llywio'r defnydd mwyaf effeithlon o gyllid cyhoeddus a'i gyfeirio tuag at y meysydd lle bydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.
- Gwella'r gallu i ymateb drwy alinio'r ddarpariaeth yn agosach ag anghenion dysgwyr, y galw ymhlith cyflogwyr, a blaenoriaethau Cymru yn y dyfodol o ran sgiliau.
- Cryfhau dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr er mwyn creu darlun cliriach o'r modd y mae myfyrwyr yn symud drwy wahanol rannau o'r system drydyddol.
- Datblygu llinell sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio gan ddefnyddio data rhan-amser ac amser llawn, a chefnogi penderfyniadau tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Monitro darpariaeth cyfrwng Cymraeg[1] er mwyn deall yn well y ddarpariaeth gyfredol, y defnydd, ac anghenion datblygu yn y dyfodol.

Mae'r broses hon yn fodd i sicrhau bod gwaith cynllunio ar draws y system drydyddol yn strategol a chydlynol ac yn gyson â'r blaenoriaethau a sefydlwyd yng Nghynllun Strategol Medr - cefnogi cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bobl ledled Cymru.

## Dull cyllido

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu sut mae Medr yn dyrannu adnoddau i ddarparwyr sy'n darparu addysg i bobl 16 oed a hŷn. Mae'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n dryloyw, yn gyson, ac yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol – gan gefnogi darpariaeth o ansawdd uchel ar draws y chweched dosbarth mewn ysgolion, colegau AB a llwybrau dysgu oedolion yn y gymuned.

### A. Methodoleg dyraniadau

Mae'r dull cyllido a ddefnyddir i bennu dyraniadau prif ffrwd ar gyfer ALlau a SABau yn unffurf, ac yn cynnwys dwy brif elfen: Nifer y Dysgwyr a Gwerthoedd Rhaglen Cyfartalog.

Er mwyn rhagfynegi nifer y dysgwyr, mae'r dyraniadau ar gyfer yr ALlau wedi'u seilio ar ddata o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer y blynyddoedd 2022, 2023, 2024, a 2025. I'r gwrthwyneb mae'r dyraniadau ar gyfer SABau wedi'u seilio ar ddata o gyfrifiadau CYBLD 2021, 2022, 2023, 2024, a 2025, yn ogystal â data ar nifer y dysgwyr o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer blynyddoedd academaidd 2020/21, 2021/22, 2022/23, 2023/24 a 2024/25.

I bennu'r gwerth rhaglen cyfartalog, defnyddir data o'r Casgliad Data Ôl-16 (P16DC) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 ar gyfer ALlau, ond ar gyfer SABau, ystyrir data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25.

Mae'r fethodoleg ar gyfer dyraniadau hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r costau cyflenwi ychwanegol mewn rhanbarthau sy'n profi amddifadedd addysgol[2],

[1] Yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir, naill ai'n rhannol neu'n llawn, drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys addysgu, asesu a chefnogi dysgwyr.
[2] Diffinnir amddifadedd addysgol fel diffyg cefnogaeth, adnoddau, neu gyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn dysgu, a/neu i sicrhau canlyniadau dysgu.

ardaloedd a nodweddir gan deneurwydd y boblogaeth[3], ac ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg [4]. Rhoddir cyfrif hefyd am gyllid ychwanegol ar gyfer lwfans a gadwir yn ganolog, y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynnal (AB yn unig). Drwy’r dull hwn, mae ALlau a SABau yn derbyn dyraniadau bloc sy’n cyfateb i gyfuniad o'r naill elfen a'r llall.

Mae'r egwyddorion sy'n llywio cymhwyso'r symiau ychwanegol hyn yn gyson ar draws y ddau sector, ond mae'r fethodoleg yn wahanol er mwyn darparu ar gyfer nodweddion unigryw y naill sector a'r llall.

## B. Cyllid Rhaglenni

Mae dull cyllido sy'n seiliedig ar raglenni yn canolbwyntio ar gefnogi pecyn dysgu sy'n anelu i alluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, neu gyflogaeth.

Rhaglenni yw’r prif gyfrwng ar gyfer cyllido, cynllunio, cyflawni a monitro o dan y fframwaith hwn. Neilltuir gwerth ariannu penodol i bob rhaglen gymwys. Mae Medr yn defnyddio'r gwerthoedd hyn i gynllunio'r defnydd o arian ac olrhain darpariaeth. Caiff y gwerthoedd cyllido eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i ystyried newidiadau mewn modelau cyflenwi neu ofynion rhaglenni, a hefyd i hyrwyddo dulliau cyflenwi effeithlon.

Mae Medr yn cydweithio â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a darparwyr allanol i gyflunio'r ddarpariaeth a'r rhaglenni yng Nghymru, a hefyd i lunio strategaethau ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth honno i fynd i'r afael ag anghenion presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Pennir gwerthoedd cyllido rhaglenni amser llawn ar sail nifer yr oriau cyswllt[5] a gysylltir â phob rhaglen. Mae'r model cyllido yn dosrannu'r oriau cyswllt ar gyfer rhaglen yn erbyn pob un o'i chydrannau cyn cymhwyso Pwysoliadau Maes Pwnc i greu'r cyfanswm o oriau wedi'u pwysoli ar gyfer pob rhaglen. Mae'r pwysoliadau wedi'u hymgorffori yn y model cyllido i adlewyrchu'r costau cyflenwi amrywiol[6] sy'n gysylltiedig â phob maes pwnc sector[7]. I bennu gwerth rhaglen mewn £oedd, caiff cyfradd fesul awr wedyn ei chymhwyso i bob awr wedi'i phwysoli. Mae'r gyfradd fesul awr hon yn ymgorffori ffactorau ar gyfer cadw[8] a chyflawniad[9], yn seiliedig ar batrymau cyflenwi hanesyddol o fewn y sector ôl-16.

---

[3] Mae teneurwydd poblogaeth yn cyfeirio at ddwysedd isel o ddysgwyr o fewn ardal recriwtio darparydd, sy'n cyfyngu ar y cyfle am arbedion maint. Gall y sefyllfa hon arwain at gostau ychwanegol wrth brynu symiau llai, a gall hefyd gyfyngu ar ddarpariaeth y cwricwlwm.

[4] Bwriedir i'r cynnydd hwn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu'r costau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu'r gweithgaredd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylid camgymryd hyn am raglenni sy'n anelu i hyrwyddo hyfedredd wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys cyrsiau fel Cymraeg i Oedolion, TGAU neu TAG Cymraeg.

[5] Cyfanswm yr oriau cyswllt addysgu, cyfarwyddo neu asesu ar gyfer yr holl weithgareddau dysgu sy'n ffurfio'r rhaglen astudio.

[6] Gall y rhain fod yn gysylltiedig â gweithgareddau, ac/neu wedi'u dosrannu i weithgareddau, fel costau cynnal a chadw safleoedd; deunyddiau; offer; cyfyngiadau ar faint grŵp oherwydd gofynion iechyd a diogelwch neu anghenion cymorth dysgwyr ag anawsterau dysgu ac/neu anableddau neu anghenion sgiliau sylfaenol; a'r gymhareb dysgwyr i staff.

[7] Pennir cod Maes Pwnc Sector gan y sefydliad dyfarnu i'r holl gymwysterau a reoleiddir.

[8] Mesur perfformiad sy'n asesu cyfran y dysgwyr sy'n parhau i fod wedi ymrestru hyd ddiwedd eu cwrs gyda darparydd drwy gydol y flwyddyn academaidd.

[9] Mesur perfformiad sy'n gwerthuso i ba raddau y mae dysgwyr sydd wedi gorffen eu cwrs yn cyflawni'r canlyniadau dysgu disgwyliedig ar gyfer cymwysterau penodol.

Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser naill ai drwy ddull rhaglen (bandio haenau) neu drwy gyfradd fesul awr unffurf sy'n berthnasol i bob maes pwnc sector. Yn gyson â'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni amser llawn, mae'r gyfradd fesul awr ar gyfer pob maes pwnc sector yn cynnwys pwysoliadau maes pwnc, ochr yn ochr ag ystyriaethau tebyg ar gyfer cadw a chyrhaeddiad.

Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, bydd rhaglenni'n destun archwiliad yn erbyn cyfres ddiffiniedig o fesurau perfformiad, gan gynnwys effeithiolrwydd rhaglenni, cyfraddau cadw dysgwyr, canlyniadau cyrhaeddiad a dilyniant, cydymffurfio â gofynion cyflenwi cymeradwy, a chywirdeb ceisiadau cyllido. Bydd yr archwiliad yn asesu a yw amcanion y rhaglen a'r canlyniadau a fwriadwyd wedi'u cyflawni, a yw'r cynnwys a'r dulliau cyflenwi yn bodloni'r manylebau y cytunwyd arnynt, ac a yw dyraniadau cyllid yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth. Bydd y broses hon yn nodi rhaglenni nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon perfformiad disgwyliedig a bydd hefyd yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth neu feysydd lle ceir galw parhaus, neu alw sy'n dod i'r amlwg, ymhlith dysgwyr.

Pan fo angen diwygio rhaglen neu pan fo'n ofynnol cyflwyno rhaglen newydd, rhaid i ddarparwyr gyflwyno Cyllid Ôl-16 – Cais am Raglen Newydd i Medr. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Dylai'r darparwyr nodi bod yn rhaid i unrhyw ddiwygiadau i raglenni gael eu cydlofnodi gan Bennaeth y Sefydliad (Sefydliadau AB) neu'r Cyfarwyddwr Addysg (Awdurdodau Lleol). Lle bo'n briodol, bydd Medr yn annog cynigion ar draws y sector.

## C. Cyfeiriadur Rhaglenni

Mae Cyfeiriadur Rhaglenni[10] wedi cael ei greu i gyfuno holl agweddau hanfodol rhaglenni cymwys o fewn un ddogfen. Mae'r cyfeiriadur yn nodi teipoleg a hierarchaeth rhaglenni ac yn darparu cod rhaglen unigryw ar gyfer pob rhaglen gymwys. Caiff ei ddiweddaru wrth i raglenni newydd gael eu cyflwyno, neu wrth i ofynion rhaglenni, gwerthoedd cyllido, a chymwysterau cysylltiedig esblygu.

## D. Components of a full-time learning programme

Mae rhaglenni amser llawn yn cynnwys pedair elfen: Y Prif Gymhwyster/Gymwysterau; Y Craidd; Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant (CLIF); a Phrofiad Cysylltiedig â Gwaith.

### I. Y Prif Gymhwyster/Gymwysterau

Rhaid i'r prif gymwysterau mewn rhaglenni dysgu gael eu dewis o blith y rheini sydd wedi cael eu rhestru ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru[11] yn y categorïau Cymeradwy neu Ddynodedig o gymwysterau a rhaid iddynt ymwneud â maes dysgu'r rhaglen. Yr unig eithriadau i hyn yw'r llwybrau amrywiol o fewn y gyfres Diploma Mynediad i Addysg Uwch sy'n cael eu rheoleiddio gan QAA.

[10] Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni ar gael ar-lein. Bydd y fersiwn ar-lein hon yn cael ei chadw'n gyfredol drwy gydol y flwyddyn drwy ddiweddaru rhaglenni neu gynnwys rhaglenni newydd cytunedig.
[11] Cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru yw'r prif bwynt cyfeirio ar gyfer pob cymhwyster a reoleiddir sy'n gymwys i dderbyn cyllid ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cymwysterau sydd wedi'u targedu at ddysgwyr sydd o dan 19 oed.

Rhaid i brif gymwysterau gyfrif am fwy na 50 y cant o gyfanswm yr oriau cyswllt ar gyfer y rhaglen, gyda anelu at 70 y cant fel y nod gorau posibl. Ystyrir yr oriau cyswllt dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau a reoleiddir wrth bennu'r canrannau hyn.

II. Y Craidd

Dylid cefnogi pob dysgwr i wella'i sgiliau rhifedd a llythrennedd drwy gydol ei raglen ddysgu. Gall dysgwyr ddatblygu eu sgiliau drwy:

- gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS) ar gyfer rhaglenni lefel 1 a 2 a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (BSCU) ar gyfer rhaglenni lefel 3;[12] a
- Ailsefyll TGAU[13] neu isafswm o 2-3 o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru[14], yn unol â chanlyniad asesiad pecyn cymorth y darparydd; ac
- amser tiwtorial.

Cymhwyster annibynnol wedi'i raddio yw'r THS, a chanddo'r un gwerth â TGAU. Mae'n canolbwyntio ar y sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Caiff y sgiliau hyn eu datblygu a'u hasesu drwy'r 4 cydran sydd fel a ganlyn:

- Prosiect Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

O 2027 ymlaen, bydd y THS yn cael ei disodli gan y Gyfres Sgiliau, sy'n rhan o'r arlwy llawn o gymwysterau 14 i 16.

Cymhwyster Lefel 3 annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau yw Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (BSCU). Mae'n cyfateb o ran maint a gofynion i Safon Uwch. Mae'r BSCU yn cynorthwyo dysgwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithredol sy'n barod i gymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang gynaliadwy ac yn y gweithle. Mae'n hyrwyddo dysgu oddi mewn ac oddi allan i'r ystafell ddosbarth, gyda dysgwyr yn cael eu hannog i ddewis meysydd astudio sydd o ddiddordeb personol ac sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r cymhwyster BSCU yn cynnwys 3 uned:

- Prosiect y Gymuned Fyd-eang
- Prosiect Cyrchfan y Dyfodol
- y Prosiect Unigol

Nid yw'r THS na'r BSCU yn statudol ar ôl 16 oed, ond mae polisi Llywodraeth Cymru yn annog pob chweched dosbarth a choleg addysg bellach i'w cynnig yn rhan o'r rhaglenni dysgu amser llawn[15].

[12] Lle nad yw dysgwr yn dilyn y THS na'r BSCU, mae'n ofynnol iddo ddilyn, fel isafswm, dau neu dri chymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru ar y lefel berthnasol yn seiliedig ar ganlyniad asesiad pecyn cymorth y darparydd, ynghyd ag amser tiwtorial a phrofiad cysylltiedig â gwaith.
[13] Ar gyfer SABau, cyflwynir y TGAU Saesneg/Cymraeg a Mathemateg yn unigol drwy'r fethodoleg ar gyfer cyllido Ailsefyll TGAU rhan-amser. Ar gyfer ALlau, defnyddir y Gronfa Lles Dysgu.
[14] Mae Medr yn annog darparwyr i fabwysiadu dull strategol wrth ddewis dysgwyr ar gyfer TGAU, gan roi pwyslais ar y rhai sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r cymwysterau hyn. Dylid cymell dysgwyr eraill i ganlyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
[15] Bagloriaeth Cymru, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr sy'n gweithio tuag at radd C mewn TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf fel rhan o'u rhaglen astudio ddilyn Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar wahân ochr yn ochr â phob TGAU.

Gall lefel y Sgiliau Hanfodol fod yn wahanol i'r prif gymhwyster/gymwysterau ar sail deilliannau'r asesiad cychwynnol/diagnostig ar gyfer pob dysgwr. Gall unedau Sgiliau Hanfodol fod ar yr un lefel, neu ar un lefel yn uwch neu'n is, ond dylai dysgwyr feithrin y sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni'r prif gymhwyster.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau penodol lle bydd Sgiliau Hanfodol ar wahân yn ofynnol, e.e. er mwyn cyflawni prif gymhwyster neu symud ymlaen i brentisiaeth neu brentisiaeth uwch.

III. Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwylliant (CLIF)

Dylai'r elfen hon o'r rhaglen gael ei theilwra i ddiwallu anghenion penodol y dysgwr, yn ogystal ag anghenion lleol ac anghenion cyflogwyr penodol. Dylai'r cymwysterau a ddarperir yn rhan o Ddysgu Cymunedol â Ffocws ychwanegu gwerth at raglen drwy feithrin sgiliau ehangach, neu drwy ddatblygu sgiliau i lefel uwch i gynorthwyo'r dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach. Cyflawnir CLIF drwy ddarparu unedau QALL neu ddysgu cydnabyddedig cyfatebol a restrir ar Cymwysterau yng Nghymru a gellir ei gyflwyno ar lefel is neu uwch na'r prif gymhwyster.

Ni fydd angen i bob dysgwr ddilyn y CLIF oherwydd efallai na fydd angen hyn os yw'r prif gymhwyster wedi mynd i'r afael â gofynion y dysgwr yn llawn. Mae gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i deilwra'r CLIF i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr unigol ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd neu sgiliau personol a chymdeithasol.

IV. Profiad Cysylltiedig â Gwaith

Mae'r gydran hon o raglen yn caniatáu unrhyw brofiad gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni galwedigaethol. Mae hyn yn cynnwys neilltuo amser i ddysgwyr feithrin a mireinio eu sgiliau ymarferol, a ddylai eu helpu i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

Bydd y Profiad Cysylltiedig â Gwaith a ddarperir yn amrywio ar draws y rhaglenni i gynnwys gweithgareddau sy'n rhan o elfen asesedig cymhwyster yn y maes galwedigaethol. Darperir nifer argymelledig o oriau Profiad Cysylltiedig â Gwaith ar gyfer pob rhaglen yn y 'Cyfeiriadur Rhaglenni'.

Dylai'r oriau seiliedig ar waith arfaethedig ar gyfer y rhaglen ddysgu gyfan gael eu hamcangyfrif mor gywir â phosibl ar ddechrau rhaglen ddysgu dysgwr, a chael eu cofnodi yn y maes LP72 (Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol).

## Nodau rhaglenni amser llawn

Mae pob rhaglen wedi'i dylunio i gynnwys nod diffiniedig sy'n cydnabod y gallai fod gan ddysgwyr unigol ddibenion dysgu gwahanol. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr yn

cael eu gosod ar y lefel fwyaf priodol er mwyn osgoi ailadrodd dysgu a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid cyhoeddus.

### A. Rhaglenni Lefel Mynediad

Nod rhaglen Lefel Mynediad yw cyflwyno ac ennyn diddordeb dysgwyr mewn addysg bellach, er mwyn datblygu a chymhwyso sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol sylfaenol, a'u paratoi i symud ymlaen i astudiaethau lefel 1.

### B. Rhaglenni Lefel 1

Mae rhaglenni lefel 1 yn cydnabod gwybodaeth a sgiliau sylfaenol. Eu nod yw ennyn diddordeb dysgwyr ar lefel sylfaenol a datblygu eu sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol ymhellach i'w galluogi i symud ymlaen i astudiaeth Lefel 2 mewn maes galwedigaethol dewisol, Prentisiaeth Sylfaen neu gyflogaeth.

### C. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 1-2

Mae rhaglenni dysgu carlam lefel 1-2 yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn meddu ar y gallu i gyflawni cymhwyster lefel 2, ond y gall fod arnynt angen ychydig o ddatblygiad lefel 1 yn y maes galwedigaethol cyn eu bod yn gwbl barod.

Dylai'r dysgu a gynllunnir ar lefel 1 tuag at gyflawni lefel 2 gael ei nodi'n glir yng nghynllun dysgu unigol y dysgwr. Yn rhan o'r broses fonitro, bydd y gweithgareddau a gyflawnir yn rhan o'r rhaglen yn cael eu hadolygu, er mwyn nodi dysgu ychwanegol y dysgwr.

Nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel 1 yn yr un Maes Sector Pwnc yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon.

Bydd dysgwyr ar raglenni dysgu carlam lefel 1-2 yn destun yr un mesurau perfformiad â dysgwr lefel 2.

### D. Rhaglenni Lefel 2

Mae rhaglenni lefel 2 yn cydnabod lefel dda o ddealltwriaeth a gwybodaeth am faes penodol. Dylai'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd y dysgwyr yn eu meithrin ar y lefel hon eu paratoi am astudiaeth bellach ar lefel 3 mewn sefydliad AB, neu ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaeth.

Ar gyfer rhaglenni adeiladu, mae lefel 2 wedi'i rhannu'n:

- Sylfaen: Rhaglen lefel 2 sy'n cydnabod lefel eang o wybodaeth a dealltwriaeth o'r maes sector ehangach gan roi cyfle i ddysgwyr fynd ymlaen i astudiaethau lefel 2 mwy penodol, neu symud ymlaen i brentisiaeth lefel 3 yn y maes galwedigaethol a ddewiswyd.
- Cynnydd: Rhaglen lefel 2 sy'n cydnabod lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o faes penodol. Diben y rhaglen yw adeiladu ar sgiliau galwedigaethol ymarferol llwybr dewisol dysgwr, gyda'r nod o symud ymlaen i astudiaethau lefel 3 yn y maes galwedigaethol a ddewiswyd neu brentisiaeth.

## E. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 2-3

Mae rhaglenni dysgu carlam lefel 2-3 yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn meddu ar y gallu i gyflawni cymhwyster lefel 3, ond y gall fod arnynt angen ychydig o ddysgu ychwanegol ar lefel 2 er mwyn cyflawni hyn mewn dwy flynedd.

Dylai'r dysgu lefel 2 ychwanegol gael ei nodi'n glir yng nghynllun dysgu unigol y dysgwr a dylid ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen, ochr yn ochr â'r dysgu lefel 3 sydd gyfwerth â blwyddyn lawn.

Yn yr ail flwyddyn, bydd dysgwyr yn symud ymlaen tuag at gwblhau'r rhaglen lefel 3 lawn. I ddibenion cyllido a monitro, dylid defnyddio'r cod rhaglen Is-faes Pwnc Sector, gan ddefnyddio'r estyniad '22'.

Nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel 2 yn yr un Maes Pwnc Sector yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon.

Bydd dysgwyr ar raglen dysgu carlam lefel 2-3 yn destun yr un mesurau perfformiad â dysgwr lefel 3.

## F. Rhaglenni Lefel 3

Mae rhaglenni lefel 3 fel arfer yn cael eu darparu dros gyfnod o ddwy flynedd, ac maent yn datblygu dyfnder ac ehangder sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd, gan gydnabod y gallu i feithrin a defnyddio amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau. Drwy ddilyn rhaglen lefel 3, bydd dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer naill ai astudiaeth bellach ar lefel 4 mewn sefydliad AB neu AU, neu ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaeth uwch.

I ddibenion cynllunio, cyllido a monitro, dylid defnyddio codau estyniad ar y cyd â chod safonol y rhaglen i nodi a yw dysgwr ar flwyddyn 1 neu flwyddyn 2 o raglen ddwy- flynedd.

## G. Rhaglenni Lefel 4

Cyrsiau addysg uwch yw Rhaglenni Lefel 4 sy’n datblygu gwybodaeth arbenigol mewn maes pwnc dewisol. Y canlyniad disgwyliedig o raglenni lefel 4 fyddai astudiaeth bellach yn y Brifysgol i gwblhau gradd lawn, cyflogaeth neu brentisiaeth uwch.

## H. Rhaglen y Dyfodol

Rhaglen astudio blwyddyn o hyd yw Rhaglen y Dyfodol, sydd wedi cael ei datblygu ar gyfer dysgwyr Lefel 1 a'r rhai sy'n wynebu'r mwyaf o risg o ddod yn NEET. Mae'r rhaglen yn galluogi dysgwyr i brofi amrywiaeth o feysydd galwedigaethol drwy ddod i gysylltiad â gwahanol lwybrau dilyniant, gan feithrin gwytnwch, sgiliau cyflogadwyedd a strategaethau lles drwy raglen ddwys o diwtorialau a chymorth.

Mae'r rhaglen yn cynnwys ei manyleb ar wahân ei hun, y gellir ei gweld ar-lein.

## I. Rhaglenni Mynediad i Addysg Bellach

Rhaglenni Lefel 1 neu Lefel 2 yw Rhaglenni Mynediad i AB. Fe'u dyluniwyd ar gyfer dysgwyr a allai fod wedi ymrestru yn hwyrach yn y flwyddyn academaidd ac/neu a allai fod yn ansicr ynghylch y llwybr y maent am ei ddewis, ac i ganiatáu cyfle i gael blas ar yrfaoedd galwedigaethol. Diben y rhaglen Mynediad i AB yw galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol, a chadarnhau ac i gadarnhau eu dewis o ran galwedigaeth.

## J. Rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch

Mae Rhaglenni Mynediad i AU wedi’u hanelu at ddysgwyr sydd â phrofiad bywyd y tu allan i addysg, ac sydd am gael darpariaeth Prifysgol, ond nad oes ganddynt o bosib y cymwysterau angenrheidiol i wneud hynny. Maent ar gael ar amrywiaeth o lwybrau a dylent anelu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder i baratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudio mewn prifysgol ar lwybr o'u dewis.

## K. Rhaglenni Estynedig

Mae Rhaglenni Estynedig ar gael ar lefelau 2 a 3 yn y meysydd canlynol:

- Safonau UG (3 neu 4 pwnc gyda neu heb elfen Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch)
- Cyfryngau Digidol a'r Dyfodol
- Peirianneg
- TGCh a Pheirianneg Hybrid
- Technoleg Gwybodaeth

Mae Rhaglenni Estynedig yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu a ddarperir gan ddarparwyr, o'r 16 awr sy'n ofynnol fesul wythnos i hyd at 30 awr fesul wythnos, er mwyn cyflawni cwricwlwm penodol sy'n bodloni anghenion cyflogwyr; yn rhoi cymwysterau i ddysgwyr a fydd yn bodloni anghenion a nodwyd ymhlith cyflogwyr y rhanbarth; ac yn ymgysylltu’n uniongyrchol â chyflogwyr drwy elfen lleoliad gwaith y rhaglenni dysgu.

Mae gan bob un o'r rhaglenni Estynedig eu manyleb ar wahân eu hunain, y gellir ei gweld ar-lein.

## L. Rhaglenni Dysgu Cynyddol yn y Gweithle

Rhaglenni dysgu cynyddol yn y gweithle yw rhaglenni Lefel 2 a Lefel 3 sy'n cynyddu nifer yr oriau dysgu safonol. Nod yr addasiad hwn cynyddu faint o ddysgu sy'n digwydd yn y gweithle o fewn rhaglen, a fydd yn y pen draw yn paratoi mwy o ddysgwyr ar gyfer y gweithle. Rhaid i'r rhaglenni ddarparu cyswllt cyson i'r dysgwr â chyflogwr drwy gydol y cyfnod dysgu.

## M. Prentisiaethau Iau

Mae Prentisiaethau Iau yn cynnig cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 astudio’n amser llawn mewn coleg am yrfa yn y dyfodol, o'r adeg pan fyddant yn 14 oed. Mae'n cynnig rhaglen dwy flynedd o hyd o addysg cysylltiedig â gwaith, gan ymgorffori profiad gwaith, ochr yn ochr â chwrs Lefel 1 neu Lefel 2 ar ystod o lwybrau galwedigaethol. Gall hyn fod gyfwerth â chynifer â phedwar neu bump TGAU.

Yn unol â'r Canllawiau Dysgu 14-16, dylai pob prentis iau hefyd astudio cymhwyster 'heriol, uchelgeisiol ac ymestynnol' mewn Mathemateg a Saesneg. I rai dysgwyr ar brentisiaeth iau, gallai hyn olygu'r cymwysterau TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru. mae hyn yn cynnwys un dyfarniad Iaith a Llenyddiaeth Saesneg integredig ar gyfer dysgwyr a allai elwa ar ddilyn cymhwyster llai. I ddysgwyr eraill ar brentisiaethau iau, gallai cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymru (sydd ar hyn o bryd wedi'u dynodi ac yn dal i fod ar gael i ddysgwyr cyn-16 oed) fod yn fwy addas.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth a amlinellwyd uchod, dylai pob Prentis Iau hefyd gael mynediad at gymorth dysgu, cymorth i reoli ymddygiad, a Swyddog Lles dynodedig i roi cefnogaeth ar gyfer problemau o ddydd i ddydd a darparu gofal bugeiliol. Nod y Brentisiaeth Iau yw sicrhau bod dysgwyr yn gyflogadwy, neu'n barod i symud ymlaen i gwrs galwedigaethol neu brentisiaeth lefel uwch, yn 16 oed.

Ariennir y rhaglen Prentisiaethau Iau yn bennaf gan yr Awdurdod Lleol ac felly mae'n hanfodol sefydlu cytundeb rhwng yr Awdurdod Leol a'r SAB cyn cytuno ar y ddarpariaeth hon.

Dylai'r ddarpariaeth fod yn unol â'r Canllawiau ar Brentisiaethau Iau.

## Gofynion o ran Codau Rhaglen

Mae codau rhaglen yn cynnwys hyd at wyth nod sy'n dynodi'r maes sector pwnc, yr is-sector, lefel y rhaglen, a'r math o raglen (e.e. amser llawn neu ran-amser). Defnyddir codau rhaglen nid yn unig i ddibenion cyllido a chynllunio, ond hefyd i ddibenion monitro ac adrodd ar draws Medr.

### A. Yr estyniadau 2 nod ar godau rhaglen (AB yn unig)

Defnyddir y rhain ar gyfer rhaglenni dwy flynedd i ddynodi a yw'r dysgwr yn dilyn y flwyddyn gyntaf neu'r ail.

O ran dysgwyr sy'n dilyn blwyddyn gyntaf rhaglen ddwy flynedd, dylid defnyddio'r estyniad '12', ac o ran dysgwyr sy'n dilyn ail flwyddyn rhaglen ddwy flynedd, dylid defnyddio'r estyniad '22'.

Er enghraifft, dylai dysgwr sy'n dilyn blwyddyn gyntaf rhaglen Gofal Anifeiliaid ar Lefel 3 gael ei gofrestru drwy ddefnyddio'r cod rhaglen canlynol:

- 0303B03B**12** Dyma'r flwyddyn gyntaf o raglen ddwy flynedd.

Fodd bynnag, dylai dysgwr sy'n dilyn ail flwyddyn rhaglen Gweinyddu Busnes ar Lefel 3 gael ei gofrestru gan ddefnyddio'r cod rhaglen canlynol:

- 1502A03B**22** Dyma'r ail flwyddyn o raglen ddwy flynedd.

### B. Cymysgu cymwysterau UG/U2 a chymwysterau galwedigaethol cyffredinol

Pan fo dysgwr yn cyflawni cymysgedd o addysg gyffredinol a/neu gymwysterau galwedigaethol, rhaid cymhwyso'r rheolau cyffredinol canlynol:

- cymysgedd o bynciau U2 ac UG:

- ei wneud yn gyfwerth ag U2 os yw'r dysgwr cyflawni'r un nifer neu fwy o bynciau U2; er enghraifft, ar gyfer un pwnc U2, un pwnc UG, a'r BSCU, byddai angen defnyddio'r cod rhaglen 0023D03B (2 cyfwerth ag U2 plws BSCU).
- ei wneud yn gyfwerth â phynciau UG os yw'r dysgwr yn dilyn mwy o bynciau UG nag U2; er enghraifft, ar gyfer dau bwnc UG, un pwnc U2. a'r BSCU, byddai angen defnyddio'r cod rhaglen 0014D03B (3 cyfwerth ag UG plws BSCU).

- cymysgedd o gymwysterau U2 a chymwysterau BTEC cyfwerth (fel y dangosir yn y tabl isod):
  - ei wneud yn gyfwerth ag U2 os yw nifer y pynciau U2 a gyflawnir gan y dysgwr yn uwch na, neu'n hafal i, faint cyfatebol y cymwysterau BTEC; er enghraifft, byddai angen defnyddio cod rhaglen 0024B03B ar gyfer dau bwnc U2, un Diploma BTEC, a'r BSCU (4+ pwnc U2 cyfatebol ynghyd ag BSCU)
  - ei gwneud yn rhaglen alwedigaethol sy'n berthnasol i'r Maes Sgiliau Sector os yw'r cymhwyster/cymwysterau BTEC a ddilynir gan y dysgwr yn fwy o ran maint nodweddiadol na'r dysgu U2; er enghraifft, ar gyfer un Diploma Cenedlaethol BTEC Lefel 3 mewn Busnes, un pwnc U2, a'r BSCU, byddai angen defnyddio'r cod rhaglen 1503B03B (Astudiaethau Busnes Lefel 3)
- cymysgedd o gymwysterau UG a chymwysterau BTEC cyfatebol (fel y dangosir yn y tabl isod):
  - ei wneud yn gyfwerth ag UG os yw nifer y pynciau UG a gyflawnir gan y dysgwr yn uwch na, neu' hafal i, faint cyfatebol y cymwysterau BTEC; er enghraifft, ar gyfer dau bwnc UG, dwy dystysgrif BTEC, a'r BSCU, byddai angen defnyddio'r cod rhaglen 0015D03B (4+ UG plws BSCU)
  - ei wneud yn rhaglen alwedigaethol sy'n berthnasol i'r Maes Pwnc Sector os yw maint nodweddiadol y cymhwyster/cymwysterau BTEC a gyflawnir gan y dysgwr yn fwy na'r dysgu UG; er enghraifft, ar gyfer un Dystysgrif Estynedig Genedlaethol BTEC Lefel 3 mewn Peirianneg, un pwnc UG, a'r BSCU byddai angen defnyddio'r cod rhaglen 0401A03B (Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 3)

| BTEC Lefel 3 Cenedlaethol | Maint Nodweddiadol (fel ODDA)[16] | Cywerthedd Lefel AS/A |
|---|---|---|
| Diploma Estynedig | Mawr Iawn (1080 ODDA) | 3 Safon Uwch TAG |
| Diploma | Mawr (720 ODDA) | 2 Safon Uwch TAG |
| Diploma Sylfaen | Canolig (510 ODDA) | 1.5 Safon Uwch TAG |
| Tystysgrif Estynedig | Bach (360 ODDA) | 1 Safon Uwch TAG |
| Tystysgrif | Bach iawn (180 ODDA) | 1 Safon Uwch TAG |

Sylwch, pan fo cymwysterau TGAU [17]yn cael eu cyflawni fel cydran mewn rhaglen astudio Safon Uwch/UG neu gyfwerth, disgwylir y bydd y cymwysterau TGAU hyn yn cael eu cyflawni yn rhan o elfen CLIF y rhaglen ddysgu, a'u cofnodi felly wrth gyflwyno data.

[16] Gweler Canllaw Cyllido Cymwysterau BTEC Lefel 3 Pearson - Cymru

[17] Ar gyfer AB, nid yw hyn yn cynnwys TGAU mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg, a gaiff eu cofnodi ar wahân drwy'r fethodoleg cyllido Ailsefyll TGAU rhan-amser.

## Darpariaeth ran-amser

Mae astudio rhan-amser ar gael ar draws pob lefel a maes pwnc sector, ac mae'n seiliedig ar weithgareddau dysgu yn hytrach na rhaglenni dysgu llawn. Dylai ganolbwyntio'n gyffredinol ar ddatblygu sgiliau neu anghenion hyfforddi / ailhyfforddi.

Ni ellir ariannu astudiaethau rhan-amser ochr yn ochr â rhaglenni dysgu amser llawn (ac eithrio Ailsefyll TGAU). Ar gyfer unrhyw ddysgu ychwanegol y byddai dysgwr amser llawn yn dymuno ei gyflawni, byddai disgwyl i elfen CLIF y rhaglen amser llawn gael ei defnyddio.

### A. Addysg Sylfaenol i Oedolion (ABE) a Pharatoi am Fywyd a Gwaith (PREP) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned)

Nod rhaglenni ABE yw meithrin sgiliau academaidd craidd, cynyddu cyflogadwyedd, cefnogi dilyniant i addysg bellach, a gwella gallu oedolion i gymryd rhan yn llawn mewn bywyd gwaith, teuluol a chymunedol.

Nod rhaglenni PREP yw paratoi dysgwyr am fywyd fel oedolion drwy ddatblygu annibyniaeth, cyflogadwyedd, lles personol, a chyfranogiad gweithredol ym mywyd y gymuned, gyda thargedau dysgu wedi'u personoli'n fanwl.

Gyda'i gilydd, mae gan raglenni ABE a PREP nodau cyflenwol:

- Mae ABE yn canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau academaidd a gweithredol craidd sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd a dysgu pellach.
- Mae PREP yn canolbwyntio ar baratoi mewn modd cyfannol am fywyd fel oedolyn, gan gynnwys annibyniaeth, ymgysylltu â'r gymuned, a pharodrwydd yn gysylltiedig â gwaith.

Mae'r naill a'r llall yn cyfrannu at ehangu mynediad, cefnogi dilyniant, a helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau addysgol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ac astudiaeth bellach, ac i fyw'n annibynnol.

### B. Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned)

Pwrpas rhaglenni ESOL yw rhoi sgiliau Saesneg sydd eu hangen ar bobl ifanc ac oedolion a allai fod yn amlieithog ond nad ydynt yn siarad Saesneg yn rhugl, er mwyn cael mynediad i addysg a chyflogaeth sicr, ac i gymryd rhan yn llawn yn y gymuned. Mae'r bobl hyn yn cynnwys ffoaduriaid, pobl ifanc sy'n ceisio lloches, ac ymfudwyr sy'n trosglwyddo o addysg orfodol.

Ar draws y ddarpariaeth ESOL, y prif bwrpas addysgol yw addysgu Saesneg ym mhob un o'r pedair agwedd (gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu) sy'n hanfodol er mwyn gwneud cynnydd academaidd, i gyfathrebu'n broffesiynol ac mewn bywyd bob dydd. Mae addysg ESOL yn cynorthwyo dysgwyr i gaffael iaith gymdeithasol a'r Saesneg academaidd sydd ei hangen i lwyddo mewn lleoliadau addysg bellach.

Mae rhaglenni ESOL yn hyrwyddo cynhwysiant ehangach drwy helpu dysgwyr i gyfathrebu'n hyderus â chyfoedion, athrawon, cyflogwyr ac aelodau'r gymuned. Nod ESOL yw lleihau allgáu cymdeithasol a galluogi pobl sy'n adeiladu bywyd newydd yng Nghymru i

ddatblygu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn rhyngweithio o ddydd i ddydd, gan symud ymlaen hefyd tuag at yr iaith lefel uwch sydd ei hangen i lwyddo yn y tymor hwy.

### C. Ailsefyll TGAU (TGAU-A) (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned)

Mae TGAU-A yn cyfeirio at TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg, a gydnabyddir fel cymwysterau sy'n dyngedfennol ar gyfer cyfleoedd addysgol a chyflogaeth dysgwyr yn y dyfodol. Bwriedir i raglenni ailsefyll felly sicrhau bod pobl ifanc na chawsant Radd C yn 16 oed yn gallu parhau i ddatblygu eu llythrennedd a'u rhifedd nes iddynt gyrraedd y safon sy'n ofynnol er mwyn astudio ymhellach, ac ar gyfer prentisiaethau a swyddi medrus.

Mae darpariaeth ailsefyll TGAU yn cefnogi'r dysgwr i gaffael y sgiliau ymarferol angenrheidiol ac yn rhoi'r cyfle iddo barhau i wella ei gyrhaeddiad addysgol sylfaenol, sydd yn ei dro yn cefnogi mynediad i addysg bellach a chyfranogiad yn y farchnad lafur yn y dyfodol.

### D. Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs) (AB yn unig)

Mae hyn yn disodli’n uniongyrchol y fethodoleg gyllido ‘NVQs a Ddarperir yn y Gweithle’.

Nod y rhaglenni hyn yw galluogi dysgwyr i ennill cymhwystra galwedigaethol trwy ddysgu ac asesu strwythuredig yn y gweithle. Mae Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs) yn cefnogi dilyniant gyrfa drwy adeiladu cymhwystra strwythuredig a gydnabyddir gan y diwydiant, sy'n galluogi dysgwyr i symud i rolau â mwy o gyfrifoldeb, gwell cyflog, ac arbenigedd cynyddol. Maent yn hwyluso datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a phenodol i'r diwydiant sy'n hanfodol ar gyfer economi ddeinamig.

Y prif grŵp targed ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yw gweithwyr sy'n datblygu sgiliau penodol i'r rôl sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a safonau galwedigaethol cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgu yn berthnasol, o ansawdd uchel, ac yn cefnogi datblygiad a chynhyrchiant y gweithlu yn uniongyrchol.

### E. Blaenoriaethau Lleol Eraill (AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned)

Nod rhaglenni Blaenoriaethau Lleol Eraill yw ymateb i alw ymhlith y gweithlu lleol, gan sicrhau bod dysgwyr yn ennill sgiliau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd eu rhanbarth. Mae hyn yn golygu y gall sefydliadau gynnig dysgu rhan-amser sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â phrinder sgiliau, bylchau mewn cyflogaeth leol, neu feysydd twf o fewn sectorau a nodir yn rhanbarthol.

Dylai Blaenoriaethau Lleol Eraill ganiatáu i golegau ac awdurdodau lleol:

- greu darpariaeth hyblyg, rhan-amser sydd wedi'i thargedu sy'n llenwi bylchau lle ceir diffyg mynediad gan ddysgwyr neu gyflogwyr i hyfforddiant addas.
- annog cydweithredu lleol fel bod darparwyr yn cydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol mewn modd cydlynol ac effeithlon.
- galluogi sefydliadau i arloesi a datblygu darpariaeth ran-amser newydd lle bo tystiolaeth leol yn dangos bod angen ffurfiau newydd ar ddysgu.

## F. Y Cyfrif Dysgu Personol (AB yn unig)

Gellir cyllido’r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol drwy system fandio 26 Haen, y caiff y cymwysterau cymeradwy eu mapio oddi mewn iddi.

Prif nod y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yw galluogi unigolion sydd mewn gwaith i uwchsgilio ac ailsgilio mewn sectorau â blaenoriaeth, i wella eu potensial o ran gyrfaoedd ac enillion, a helpu i godi’r incwm canolrifol yng Nghymru.

Cyhoeddir cymwysterau sy'n gymwys i'w darparu drwy raglen y Cyfrif Dysgu Personol ar blatfform LLWR Inform[18] ac fe'u darperir drwy Gyrfa Cymru. Mae’r ddarpariaeth wedi’i halinio â blaenoriaethau cenedlaethol i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni anghenion economaidd ac yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau ledled Cymru. Mae'r ystod o ddarpariaeth gymeradwy yn cynnwys cymwysterau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru yn ogystal â chymwysterau sydd heb eu rheoleiddio[19].

Mae gan y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol ei manyleb unigryw ei hun, y gellir ei gweld ar-lein.

## G. Lleoliadau Profiad Gwaith (AB yn unig)

Bwriedir i raglenni Lleoliadau Profiad Gwaith roi profiad ystyrlon o amgylcheddau gwaith go iawn i ddysgwyr, gan eu helpu i deall disgwyliadau, arferion ac ymddygiadau'r gweithle. Eu pwrpas yw cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion i fod yn barod am waith.

Mae Lleoliadau Profiad Gwaith yn galluogi dysgwyr i ymgolli mewn lleoliad proffesiynol, gan gael cipolwg o ddiwydiannau sydd o ddiddordeb iddynt, meithrin hyder, a datblygu sgiliau cyflogadwyedd ymarferol a werthfawrogir gan gyflogwyr.

Un o'r prif fwriadau yw sicrhau y gall dysgwyr ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol, gan gynnwys gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau ac annibyniaeth. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu dysgwyr i gaffael y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i waith, prentisiaethau, neu astudiaethau galwedigaethol/academaidd pellach.

Mae Lleoliadau Profiad Gwaith yn helpu dysgwyr i archwilio llwybrau posibl i'r dyfodol, cadarnhau pa yrfaoedd sydd o ddiddordeb iddynt, a gwneud penderfyniadau deallus am gyrchfannau ôl-addysg. Mae dod i gysylltiad â rolau go iawn ac unigolion proffesiynol yn eu helpu i ddeall beth yw gofynion swyddi, ac i werthuso a yw diwydiant yn gweddu i'w sgiliau a'u dyheadau.

Mae'r rhaglenni canlynol wedi'u cymeradwyo ar gyfer darpariaeth rhan-amser:
- Rhaglenni Lleoliadau Estynedig
- Academïau Sgiliau Sectorau â Blaenoriaeth

Mae gan bob un o'r rhaglenni Lleoliad Profiad Gwaith uchod ei manyleb ar wahân ei hun, y gellir ei gweld ar-lein.

[18] Gweler LLWR-Inform - LLWR LA06/AW08 Lookup
[19] Ni chaiff y cymwysterau hyn eu goruchwylio gan gyrff rheoleiddio swyddogol fel Cymwysterau Cymru, Ofqual (yn Lloegr), nac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA). Maent fel arfer yn cael eu creu a'u dyfarnu gan sefydliadau preifat, cwmnïau neu ddarparwyr hyfforddiant.

## Diwygiadau i Raglenni

Mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod y data y maent wedi'u cyflwyno i'r P16DC neu'r LLWR yn gywir ac nad ydynt wedi'u diwygio na'u dileu ar ôl cwblhau / terfynu'r dysgu. Ni ddylid diwygio na dileu data mewn unrhyw amgylchiadau i roi gwedd fwy cadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

### A. Tynnu'n Ôl

Ystyrir bod dysgwr wedi tynnu'n ôl o raglen astudio os gwyddys ei fod wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen astudio, neu symud o raglen astudio amser llawn i raglen astudio ran-amser. Dylai naill ai'r dysgwr neu diwtor y dysgwr fod wedi cadarnhau hyn mewn ysgrifen.

Yn ogystal â hynny, ar gyfer rhaglenni amser llawn a rhaglenni rhan-amser sy'n fwy na 24 wythnos o hyd ac nad ydynt yn rhaglenni dysgu o bell, rhaid ystyried bod dysgwr wedi tynnu'n ôl os yw heb fod yn bresennol mewn dosbarthiadau ers o leiaf 4 wythnos barhaus, heb gynnwys gwyliau. Bydd hynny'n wir onid oes tystiolaeth archwiliadwy o fwriad i ddychwelyd. Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys llythyr y dysgwr neu'r cyflogwr, neu nodiadau mewnol ffurfiol fel adroddiadau tiwtorial, contractau ymddygiad neu gynlluniau gweithredu personol.

Ar gyfer darpariaeth dysgu o bell, byddai dysgwr sydd wedi'i dynnu'n ôl yn ddysgwr sy'n methu bodloni'r canllawiau canlynol ynghylch cyfranogiad neu gyswllt:

a) presenoldeb mewn canolfan neu fewngofnodi i ddeunyddiau dysgu
b) derbyn gwaith neu brosiectau gan y tiwtor (electronig neu gopi caled)
c) gohebiaeth â'r tiwtor yn dangos bod y myfyriwr yn dal yn weithgar wrth anelu at ei nod dysgu, gan gynnwys cysylltiadau cynlluniedig

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr yn cael eu tynnu'n ôl o raglen os nad ydynt wedi bod i ddosbarthiadau am 4 wythnos yn barhaus, heb gynnwys y gwyliau. Rhaid cymryd camau i dynnu'n ôl mewn modd amserol, a lle nad yw dysgwr wedi'i dynnu'n ôl, ond wedi bod yn absennol ers dros 4 wythnos, rhaid darparu tystiolaeth archwiliadwy o fwriad i ddychwelyd.

Os nad yw dysgwr wedi bod yn bresennol yn ystod rhaglen, ac y bernir ei fod wedi tynnu'n ôl, rhaid i'r darparydd addasu'r cofnod i adlewyrchu bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl. Rhaid i ddarparwyr gofnodi dyddiadau tynnu'n ôl yn brydlon ac yn fanwl gywir er mwyn adlewyrchu'r dyddiad olaf y cofnodwyd presenoldeb gwirioneddol.

Ym mhob achos, rhaid ystyried mai dyddiad tynnu'n ôl y dysgwr yw dyddiad olaf ei bresenoldeb gwirioneddol, nid y dyddiad pan nodwyd ar gofnod y myfyriwr ei fod wedi tynnu'n ôl. Er ei bod yn bosibl na phennir bod dysgwyr wedi tynnu'n ôl nes i 4 wythnos fynd heibio ers eu presenoldeb diwethaf neu, yn achos dysgu agored ac o bell, ers y cyswllt a fethwyd, rhaid cofnodi'r dyddiad diwethaf o gyfranogiad gwirioneddol fel y dyddiad tynnu'n ôl.

Wrth wirio'r mecanwaith tynnu'n ôl, rhaid i ddarparwyr fod â systemau cadarn ar waith i sicrhau bod dysgwyr â phresenoldeb anghyson oherwydd salwch neu amgylchiadau dilys eraill yn cael eu nodi. Lle bo rhesymau cyfiawn dros bresenoldeb anghyson, rhaid i

ddarparwyr gadw tystiolaeth o asesiad a/neu hysbysiad gan y dysgwr, rhiant, eiriolwr neu gynghorydd meddygol fod bwriad cryf i ddychwelyd. Yn yr achosion eithriadol hyn, nid oes rhaid cofnodi'r dysgwr fel dysgwr sydd wedi tynnu'n ôl o fewn y graddfeydd amser arferol. Os nad yw'r dysgwr yn dychwelyd, rhaid pennu dyddiad y presenoldeb olaf fel y dyddiad tynnu'n ôl.

Ni ddylid cofnodi bod dysgwyr sydd wedi tynnu'n ôl wedi cwblhau eu rhaglen. Ni chaiff cofnodion cyflawniad ond adlewyrchu'r gweithgareddau dysgu hynny a gwblhawyd yn llwyddiannus cyn tynnu'n ôl.

### B. Trosglwyddiadau

Gall darparwyr drosglwyddo dysgwyr i weithgareddau / rhaglenni astudio mwy addas yn ystod eu haddysg, ond dim ond os yw hynny er lles pennaf y dysgwyr. Fodd bynnag, ni ddylid cofnodi trosglwyddiadau:

- os yw'r dysgwr yn symud o ddysgu asesadwy i ddysgu na ellir ei asesu; neu
- ar ôl i'r dysgwr orffen y dysgu, i nodi ei fod wedi cyflawni ar lefel is, neu nodi cymhwyster 'llai' na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol; neu
- i roi gwedd fwy ffafriol ar ddeilliannau dysgwyr.

Caniateir gwelliannau i statws dysgu ar draws rhaglenni astudio amrywiol, a mathau amrywiol o addysg, gan gynnwys newidiadau rhwng ALI/AB, Prentisiaethau, a Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Fodd bynnag, dim ond o fewn 56 diwrnod cyntaf y rhaglen ddysgu gychwynnol y ceir cofnodi'r diwygiadau canlynol fel trosglwyddiadau.

- o raglen amser llawn i raglen ran-amser neu i raglen amser llawn lefel is; neu
- i brif gymhwyster/gymwysterau ar lefel is neu gymhwyster/gymwysterau llai; neu
- o un rhaglen ran-amser i un arall ar lefel is neu lai.

Mae'r amserlen ar gyfer prosesu trosglwyddiadau wedi'i hamlinellu isod:

- mewn achosion lle mae'r trosglwyddiad i raglen neu weithgaredd dysgu gwahanol o fewn yr un darparydd, caniateir bwlch o 7 diwrnod calendr ar y mwyaf rhwng presenoldeb.
- ar gyfer trosglwyddiadau sy'n cynnwys darparydd gwahanol, caniateir bwlch o 21 diwrnod calendr ar y mwyaf rhwng presenoldeb.

Os bydd y newid o ran dysgu y tu hwnt i'r amserlen a ddynodwyd uchod, ni fydd yn cael ei ystyried yn drosglwyddiad mwyach a dylid ei gofnodi fel achos o dynnu'n ôl.

Ym mhob achos, rhaid i'r trosglwyddiadau a gofnodir roi adlewyrchiad manwl gywir o newidiadau dilys sy'n digwydd yn addysg y dysgwr, ac ni cheir eu cymhwyso'n ôl-weithredol i ddangos bod y dysgwr wedi ennill cymhwyster llai, neu ar lefel is ar ôl i'r dysgwr orffen dysgu.

## Tystiolaeth o oriau ac amserlen y Rhaglen

Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni yn amlinellu nifer yr oriau sy'n cael eu hariannu ar gyfer pob rhaglen ddysgu. Nid oes disgwyl i darparwyr gyflawni union nifer yr oriau ar gyfer pob maes, ond dylid ei ddilyn fel canllaw cyffredinol. Fodd bynnag, disgwylir i gyfanswm yr

oriau sy'n cael eu cyflawni fod o fewn goddefiant rhesymol i'r oriau sy'n cael eu hariannu; i ddibenion archwilio, y goddefiant rhesymol yw 10%.[20]

I ddibenion archwilio, mae angen i ddarparwyr allu dangos mewn fformat syml eu bod yn cofnodi oriau a gynlluniwyd yn unol â'r oriau ar yr amserlen, y cytundeb dysgu neu ddogfen debyg.

## Math o ddarpariaeth a goblygiadau pellach

Mae gan bob math o ddarpariaeth ei gyfres ei hun o feini prawf a phrosesau er mwyn pennu cymhwystra, gan adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau penodol yr unigolion y maent yn anelu i'w cefnogi.

### A. Darpariaeth Amser Llawn

Gall addysg amser llawn gael cryn effaith ar gymhwystra i dderbyn amrywiaeth o fudd-daliadau yn y DU. Efallai y bydd unigolion yn gallu cael Credyd Cynhwysol os ydynt yn astudio'n amser llawn a bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Eu bod yn 21 oed neu'n iau, mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch[21] ac nad oes ganddynt gefnogaeth rhieni[22]
- os ydynt yn gyfrifol am blentyn[23]
- Eu bod yn byw gyda'u partner sy'n gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol
- Eu bod wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn ac yn byw gyda phartner sy'n iau na'r oedran hwnnw
- Eu bod wedi derbyn Hysbysiad Mudo i ddweud wrthynt bod yn rhaid symud i Gredyd Cynhwysol
- Eu bod yn anabl, ac yr aseswyd bod eu gallu i weithio cyn dechrau eu cwrs yn gyfyngedig, a'u bod yn derbyn:
    - Taliad Annibyniaeth Personol
    - Lwfans Byw i'r Anabl
    - Taliad Plentyn Anabl yn yr Alban
    - Lwfans Gweini
    - Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

---

[20] Mae hyn er mwyn sicrhau bod digon o amser cyswllt wedi'i ddyrannu i ddysgwyr i'w galluogi i gyflawni deilliannau dysgu'r ddarpariaeth, a bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
[21] Addysg nad yw'n addysg uwch yw unrhyw gwrs hyd at Safon Uwch, neu gyfwerth. Mae cyrsiau llawn amser yn cynnwys Safonau UG; Safonau Uwch; Lefelau BTEC a Diploma Estynedig BTEC, hyd at Lefel 3; cyrsiau sgiliau lefel mynediad; TGAU; National 5s (N5s); Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol neu lefel 6 Fframwaith Cymwysterau'r Alban
Tystysgrif neu Ddiploma Cenedlaethol; NVQs, Dyfarniadau, Tystysgrifau neu Ddiplomas hyd at Lefel 3.
[22] Mae hyn yn cynnwys os ydynt wedi gadael gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y cyngor lleol, neu os nad oes ganddynt gefnogaeth rhieni. Gallant fod yn gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol yn yr achosion canlynol:

- os ydynt ar gwrs amser llawn mewn addysg neu hyfforddiant nad yw'n addysg uwch a ddechreuwyd cyn troi'n 21 oed
- os ydynt yn troi'n 21 tra byddant ar y cwrs

Gallant barhau i dderbyn Credyd Cynhwysol yn yr achosion canlynol:

- tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fyddant yn troi'n 21
- hyd ddiwedd y cwrs, os bydd yn dod i ben cyn iddynt droi'n 21 oed

[23] Gall y plentyn fod wedi'i fabwysiadu neu'n blentyn maeth.

Mae'n bosibl y bydd unigolion hefyd yn gallu cael Credyd Cynhwysol os ydynt yn astudio cwrs addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, os nad ydynt yn derbyn benthyciad myfyriwr neu grant cynhaliaeth a'u bod ar gael i weithio. Os yw'r cwrs yn fwy na 12 awr yr wythnos, ni fydd hyn ond yn berthnasol o 1 Medi yn dilyn eu penblwydd yn 19 oed. Y rheswm am hyn yw bod eu rhieni'n gallu hawlio budd-daliadau ar eu cyfer cyn y dyddiad hwnnw.

### B. Darpariaeth Ran-amser

Addysg nad yw'n addysg uwch yw unrhyw gwrs hyd at Safon Uwch neu gyfwerth. Os yw'r cwrs yn fwy na 12 awr yr wythnos, ni fydd hyn ond yn berthnasol o 1 Medi yn dilyn eu penblwydd yn 19 oed. Y rheswm am hyn yw bod eu rhieni'n gallu hawlio budd-daliadau ar eu cyfer cyn y dyddiad hwnnw.

### C. Darpariaeth Anghymwys

Nid yw'r ddarpariaeth ganlynol yn gymwys i gael cyllid ôl-16 gan Medr:

a) unrhyw raglenni sydd y tu allan i'r Cyfeiriadur Rhaglenni

b) cymwysterau heb eu dynodi ar y gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru sy'n ymwneud â chael aelodaeth o gyrff proffesiynol

c) cymwysterau y mae eu cymeradwyaeth yn dod i ben: rhaid dechrau cyflwyno'r cwrs cyn 'dyddiad dechrau terfynol y gymeradwyaeth' ar y gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru; atgoffir Darparwyr mai nhw sy'n gyfrifol am wirio argaeledd cymwysterau, a'u dyddiadau cofrestru terfynol a dyddiadau gorffen ardystio gyda Cymwysterau yng Nghymru a'r corff dyfarnu perthnasol

d) cyrsiau addysg uwch (AU) rhagnodedig [24] gan gynnwys:

   i. cymwysterau ar gyfer hyfforddiant pellach i athrawon neu weithwyr ieuenctid neu gymunedol
   ii. tystysgrifau a diplomâu addysg uwch (CertHE a DipHE)
   iii. tystysgrifau a diplomâu cenedlaethol uwch (HNC a HND)
   iv. graddau sylfaen
   v. graddau cyntaf
   vi. cymwysterau ôl-radd
   vii. unrhyw gymwysterau eraill ar lefel 4 ac uwch a ddyfernir gan sefydliad AB

e) cyrsiau wedi'u hardystio gan y gwerthwr, onid ydynt yn gymwysterau cymeradwy o dan y ddarpariaeth Cyfrifon Dysgu Personol, neu wedi'u hymwreiddio yn y dysgu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster cymeradwy, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at hynny

f) prif gyrsiau sgiliau gyrru a chyrsiau sgiliau gyrru uwch, onid ydynt yn gymwysterau cymeradwy o dan y ddarpariaeth Cyfrifon Dysgu Personol

g) hyfforddiant i ddysgwyr cyflogedig 19 oed a throsodd, a gomisiynir gan gyflogwr ac a gyflwynir dros gyfnod o 5 niwrnod neu lai, naill ai:

[24] Nid yw cyrsiau addysg uwch rhagnodedig yn gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus addysg bellach gan eu bod oddi mewn i'r system addysg uwch ac yn cael eu cefnogi drwy drefniadau statudol, cyllid a rheoleiddio ar wahân. Mae cadw'r naill a'r llall ar wahân yn fodd i sicrhau atebolrwydd priodol ac yn osgoi cyllido'r un ddarpariaeth ddwywaith.

i. y mae angen i gyflogwyr ei ddarparu i sicrhau bod eu gweithlu'n cydymffurfio â gofynion statudol; neu
ii. y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i unigolion ei wneud er mwyn gallu gwneud eu swydd

h) cyrsiau wedi'u hanelu at ddysgwyr cyflogedig sydd o fewn cwmpas Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle[25]29F (fel y'i diffinnir yn Atodiad D).

i) unrhyw weithgareddau dysgu eraill a gyllidir o ffynonellau eraill, gan gynnwys yr holl ddarpariaeth lle caiff y costau llawn eu hadennill.

## Cymhwystra dysgwyr

### A. Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau ynghylch cymhwystra dysgwyr ar gyfer y Fframwaith Cyllido Ôl-16 yng Nghymru, ynghyd â chanllawiau ar ddangos tystiolaeth o gymhwystra dysgwyr i gynorthwyo Darparwyr yn eu prosesau ymrestru.

2. Bydd y rhan fwyaf o bobl 16 oed a throsodd, sy'n byw yn gyfreithiol yng Nghymru, yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16, ac mae'r eithriadau i hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 33 i 37. Mae'r cyngor ym mharagraffau 11 i 14 yn darparu rhagor o wybodaeth am y gofynion cymhwystra manwl. I gynorthwyo'r darparwyr a gyllidir gan Medr i leihau hyd yr eithaf y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chymhwystra dysgwyr, y cwbl y bydd angen i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ei wneud fydd cadarnhau ar eu ffurflen ymrestru eu bod wedi preswylio'n gyfreithlon yn y DU am y 3 blynedd flaenorol. I'r nifer fach o ddysgwyr cymwys nad ydynt yn bodloni'r prawf hwn, dylai darparwyr gymryd camau i'w bodloni eu hunain bod y dysgwr yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU. I gynorthwyo darparwyr ac archwilwyr cyllid ceir rhagor o gyngor ynghylch tystiolaeth o gydymffurfio â rheolau cymhwystra dysgwyr ym mharagraffau 38 i 46.

### B. Dysgwyr o'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

3. Mae'r DU wedi gadael yr UE ac mae symudiad rhydd rhwng y DU a'r UE wedi dod i ben. Mae system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau'r DU yn berthnasol ac yn trin dinasyddion yr UE (ac eithrio dinasyddion Iwerddon), a dinasyddion nad ydynt yn hanu o'r UE, yn gyfartal. Nid yw dysgwyr sy'n ddinasyddion gwledydd yr UE (neu AEE) (ac eithrio dinasyddion Iwerddon) a ddaeth i mewn i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn gymwys yn awtomatig i gael cyllid a rhaid iddynt allu dangos eu bod yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU i gael eu cyllido.

4. Rhaid i ddysgwyr sy'n ddinasyddion gwledydd yr UE (neu AEE) neu'n blant i weithwyr Twrcaidd sy'n preswylio yn y DU ac wedi dechrau eu rhaglen ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 gael eu trin yn gydradd â thrigolion y DU. Unwaith y byddant wedi cofrestru byddant yn gymwys i gael cyllid trwy gydol eu rhaglen astudio. Mae holl ddinasyddion Iwerddon yn parhau i fod yn gymwys yn awtomatig i gael cyllid dan gonsesiynau mewnfudo y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Iwerddon cyn bod y DU yn aelod o'r UE. Bydd y rhai sydd eisoes wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog a statws

[25] Defnyddir y term Hyfforddiant Diogelwch y Gweithle i gynnwys hyfforddiant a anelir yn bennaf at gefnogi diogelwch yn y gweithle.

preswylydd sefydlog y Swyddfa Gartref yn gymwys dan baragraff 12 tra dylai'r rhai sy'n dal i gwblhau'r broses hon gael eu hasesu dan baragraff 13.

## C. Cymhwystra Preswylio

5. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r meini prawf cymhwystra cyllid ôl-16 ar gyfer rhaglenni astudio. Dim ond o dan unrhyw un pwynt neu is-baragraff o'r pwyntiau neu is-baragraffau unigol ym mharagraffau 11 i 14 y mae angen i ddysgwyr fod yn gymwys. Bydd yr holl ddysgwyr sy'n gymwys i ddechrau eu rhaglen astudio'n gymwys drwy gydol eu rhaglen astudio. Mae paragraffau 33 i 37 yn egluro'r prif eithriadau sy'n cwmpasu dysgwyr anghymwys i ddibenion cyllid.

6. I ddibenion cyllid, rhaid i ddarparwyr gadarnhau cymhwystra dysgwyr ar ddechrau eu rhaglen. Rhaid i Ddarparwyr geisio cyngor gan Medr ynghylch unrhyw achos lle maent yn ei chael hi'n anodd asesu cymhwystra dysgwr.

7. I fod yn gymwys i gael cyllid rhaid bod gan y dysgwr hawl gyfreithiol i breswylio yn y DU ar ddechrau eu rhaglen astudio. Fel arfer bydd person sy'n ddarostyngedig i orchymyn allgludo gan y Swyddfa Gartref yn anghymwys i gael cyllid nes bod eu sefyllfa wedi cael ei datrys wrth fodd y Swyddfa Gartref. Mae dysgwyr y mae eu caniatâd mewnfudo i ddod i mewn i'r DU yn un fel 'Ymwelydd' (a adwaenir yn gyffredin hefyd fel 'Twrist') hefyd yn anghymwys i gael cyllid amser llawn 16 i 18.

8. Wrth bennu cymhwystra dysgwr, rhaid i ddarparwyr hefyd eu bodloni eu hunain bod tebygolrwydd rhesymol y bydd y dysgwr yn gallu cwblhau eu rhaglen astudio cyn ceisio cyllid ar gyfer y dysgwr. Dylai hyn gynnwys ymarferoldeb darparu lle ar gyfer dysgwr a fydd o bosibl yn methu â chwblhau eu rhaglen os ydynt yn debygol o adael y wlad yn barhaol yn ystod eu rhaglen astudio. Pan fo dysgwr yn gwneud cais am raglen astudio lle mae eu caniatâd cyfreithiol cyfredol i aros yn y DU yn dod i ben chwe mis neu fwy ar ôl iddynt ddechrau, gall darparwyr ganiatáu iddynt ymrestru. Mae Medr yn ystyried ei bod yn ddigonol i ddarparwyr ddibynnu ar gadarnhad gan y dysgwr (a/neu eu teulu) eu bod yn bwriadu gwneud cais am yr estyniad angenrheidiol i'w caniatâd i aros hyd ddiwedd eu rhaglen astudio. I ddibenion y paragraff hwn, rhaid i ddarparwyr dybio bod gan holl ddysgwyr AEE a oedd yn preswylio yn y DU cyn 1 Ionawr 2021 hawl gyfreithiol i aros yn y DU hyd ddiwedd eu rhaglen astudio. Cyn gynted ag y bo dysgwr wedi ymrestru, disgwylir i'r darparydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y dysgwr gwblhau eu rhaglen.

9. Fel arfer bydd dysgwyr sy'n mynychu rhaglenni o fwy nag un tymor o hyd, ac sy'n gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen, yn gymwys i gael cyllid trwy gydol eu rhaglen astudio yn ogystal â rhaglenni astudio dilynol a gyllidir y maent yn eu hastudio ar unwaith wedi i'w rhaglen gychwynnol a gyllidir ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio rhaglenni astudio olynol heb unrhyw doriad i'w hastudiaethau heblaw am gyfnodau gwyliau arferol. Yn yr un modd, mae dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen astudio'n annhebygol iawn o ddod yn gymwys i gael cyllid yn ystod cyfnod eu rhaglen astudio.

## D. Diffiniad o fod yn Preswylio Fel Arfer

10. I ddibenion cyllid, mae Medr yn ystyried bod preswylio fel arfer mewn gwlad benodol yn golygu unrhyw berson sy'n preswylio fel arfer ac yn gyfreithlon o ddewis ac at

ddiben sefydlog yn y wlad honno. Dylid anwybyddu absenoldebau dros dro o'r ardal berthnasol. Bydd rhywun nad yw wedi bod yn preswylio fel arfer am ei fod ef neu ei bod hi neu fod rhiant neu briod neu bartner sifil y person wedi bod yn gweithio dramor dros dro yn cael eu trin fel pe baent wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr ardal berthnasol.

## E. Dysgwyr sy'n Gymwys i gael Cyllid

11. Bydd y personau canlynol yn gymwys i gael cyllid (mae'r grwpiau hyn yn cyfateb i rai o'r grwpiau yn Rheoliadau Addysg (Ffioedd Dysgwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021):

    a) person sydd, ar y 'dyddiad perthnasol'[26], yn 'breswylydd sefydlog' yn y DU, ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd (hynny yw gan gynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) am y 3 blynedd cyn y 'dyddiad perthnasol'. 'Mae 'preswylydd sefydlog' yn golygu person sydd wedi'i sefydlu yn y DU yn unol ag ystyr adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971; hynny yw, bod ganddynt naill ai ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yn y Deyrnas Unedig[27], eu bod yn ddinesydd Gwyddelig neu fod ganddynt hawl i breswylio yn y DU. Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid yn cynnwys:

        i. Person sy'n ddinesydd y DU neu berson arall sydd â hawl i breswylio[28] yn y DU sydd wedi bod yn preswylio'n arferol yn y DU a'i Hynysoedd neu Diriogaethau Tramor Prydeinig, neu aelodau o'u teulu.
        ii. Dinasyddion Gwyddelig
        iii. Dinasyddion yr UE neu aelodau o deulu[29] gweithwyr yr AEE a Swisaidd[30] (yn preswylio yn y DU cyn 1 Ionawr 2021) gyda statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog.[31]

---

[26] Mae'r term 'dyddiad perthnasol' yn cyfeirio at 'ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd (neu addysgu) gyntaf y cwrs' ac fe ddiffinnir hyn fel 1 Medi os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Awst

[27] Caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros yw caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU heb unrhyw gyfyngiadau amser ar hyd yr arhosiad.

[28] Hawl preswylio yw'r hawl i fyw a gweithio yn y DU. Mae'r rhai sydd â hawl i breswylio yn cynnwys:
- Unigolion sydd â Thystysgrif Hawl i Breswylio
- Rhai y mae eu pasbort wedi'i arnodi i ddangos bod ganddynt hawl i breswylio yn y DU.
- Dinasyddion Prydeinig (gan gynnwys rhai sydd â thystysgrif naturioli neu gofrestru fel dinesydd Prydeinig)
- Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (a elwir bellach yn Ddinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain)
- Gwladolion Iwerddon
- Gwladolion o'r UE neu'r AEE sydd â statws sefydlog
- Aelodau o deulu gweithwyr yr AEE neu Swisaidd sydd â statws sefydlog

[29] Aelod o deulu gwladolyn yr UE neu weithiwr yr AEE yw priod neu'n bartner sifil, plentyn, ŵyr/wyres, rhiant dibynnol neu nain/taid yr unigolyn

[30] Gweithiwr Swisaidd yw gwladolyn Swisaidd sy'n gweithio, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol Swisaidd, yn y DU. Yn ogystal â hynny, ceir categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr trawsffiniol Swisaidd, pobl hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu bobl hunangyflogedig Swisaidd, a allai fod yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16. Ceir rhagor o wybodaeth am y categorïau hyn yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

[31]Statws Preswylydd Sefydlog – Mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cyfeirio at wladolion yr UE, yr AEE a Swisaidd ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU cyn diwedd y cyfnod trosiannol (31 Rhagfyr 2020) ac a barhaodd i fyw yn y DU ar ôl y dyddiad hwn, y mae ganddynt hawliau dinasyddion o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a'r Cytundeb Hawliau Dinasyddion Swisaidd ("y Cytundebau Ymadael"). Gall rhai sy'n bodloni gofynion y Cytundebau Ymadael barhau i breswylio'n gyfreithlon yn y DU a manteisio ar hawliau cysylltiedig. Mae hawliau'r rhai sy'n symud i'r DU ar ôl diwedd y cyfnod trosiannol (onid oes ganddynt hawliau dinasyddion fel

iv. Dysgwyr sy'n blant i weithwyr Twrcaidd[32] lle mae'r gweithiwr Twrcaidd wedi'i gyflogi'n gyfreithlon ac wedi preswylio yn y DU cyn 1 Ionawr 2021
v. Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (a adwaenir bellach fel Dinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain)
vi. y rhai y mae eu pasbortau wedi cael eu hardystio i ddangos bod ganddynt hawl i breswylio yn y DU
vii. y rhai sydd â thystysgrif dinasyddio neu gofrestru fel Dinesydd Prydeinig
viii. y rhai sydd â fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) Hong Kong (BN(O))[33]
ix. Gweithwyr yr AEE a'r Swistir sydd â statws cyn-sefydlog neu sefydlog sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU, yr AEE neu Gibraltar, neu aelodau o'u teulu
x. Gwladolion y DU a oedd yn byw yn yr AEE cyn 1 Ionawr 2021 sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, Gibraltar neu'r DU am dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol ac sydd wedi byw'n barhaus yn yr AEE neu'r DU rhwng 31 Rhagfyr 2020 a'r dyddiad perthnasol, neu aelodau o'u teulu
xi. Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros[34] fel person gwarchodedig neu aelodau o'u teulu, gan gynnwys rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel person diwladwriaeth neu berson â hawl i aros [35]o dan adran [36]67
xii. Rhai sydd â chaniatâd Calais i aros[37]
xiii. Personau y rhoddir caniatâd iddynt aros fel partner gwarchodedig neu eu plant

12. Yn ychwanegol at y grwpiau a amlinellir uchod, bydd Medr hefyd yn ystyried bod y grwpiau canlynol o ddysgwyr (gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl wedi bod yn byw yn y DU am y 3 blynedd ddiwethaf) yn gymwys i gael cyllid:

---

perthynas i rywun sydd eisoes yn y DU) yn ddarostyngedig i drefniadau fisa newydd y Swyddfa Gartref. Gall rhai sydd â hawliau dinasyddion wneud cais am statws preswylydd sefydlog drwy Gynllun Preswylio'n Sefydlog y Swyddfa Gartref i Ddinasyddion yr UE. Dyfernir y canlynol iddynt:

- Statws preswylydd sefydlog (h.y. caniatâd amhenodol i aros os oes ganddynt yr isafswm o bum mlynedd parhaus o breswylio'n gyfreithlon yn y DU), neu
- Statws preswylydd cyn-sefydlog (h.y. caniatâd cyfyngedig i aros) os ydynt wedi preswylio yn y DU am gyfnod byrrach (unrhyw gyfnod preswylio sy'n fyrrach na phum mlynedd parhaus). Ar ôl pum mlynedd o breswylio'n gyfreithlon yn y DU gallant wneud cais i newid y statws hwn i statws preswylydd sefydlog, a dylent wneud hynny cyn i'w statws preswylydd cyn-sefydlog ddod i ben.

[32] Mae gweithiwr Twrcaidd yn wladolyn o Dwrci sy'n weithiwr yn y DU.
[33] Gellir cyfrif y cyfnod y mae person wedi byw yn Hong Kong cyn dod i mewn i'r DU tuag at y cyfnod cymhwyso o 3 blynedd.
[34] Mae person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn berson sydd wedi cael gwybod gan y Swyddfa Gartref, er nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur, ei fod wedi cael caniatâd i aros yn y DU. Fel arfer rhoddir Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i berson o'r fath.
[35] Mae person sydd â chaniatâd diwladwriaeth i aros yn rhywun sydd wedi dod i mewn i'r DU a chael caniatâd i aros fel Person Diwladwriaeth yn unol â pharagraff 405 y Rheolau Mewnfudo.
[36] Caniatâd i aros o dan adran 67 yw person y rhoddir caniatâd iddo aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016. Gelwir hyn hefyd yn ganiatâd o dan y gwelliant "Dubs".
[37] Caniatâd i aros o dan Calais yw math o ganiatâd a roddir i rai a gludwyd i'r DU yn rhan o "ymarfer clirio Calais" rhwng Hydref 2016 a Gorffennaf 2017, a oedd o dan 18 ar y pryd, ac oedd â chysylltiadau teuluol cydnabyddedig yn y DU.

a) pobl â statws ffoadur (neu eu priod, eu partneriaid sifil a'u plant[38]) (RS)[39], diogelwch dyngarol (HP)[40], caniatâd yn ôl disgresiwn (DL),[41] caniatâd eithriadol i ddod i mewn (ELE) neu ganiatâd eithriadol i aros (ELR)[42]

b) pobl â statws preswylydd sefydlog diweddar (mae hyn yn golygu'r rhai y rhoddwyd ILE neu ILR, hawl preswylio neu ddinasyddiaeth Brydeinig iddynt o fewn y 3 blynedd yn union cyn dechrau'r cwrs)

c) pobl y rhoddwyd statws preswylydd cyn-sefydlog iddynt yn dilyn ein hymadawiad â'r UE

d) priod neu bartner sifil person â statws sefydlog sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU

e) rhai sydd â chaniatâd y tu allan i'r rheolau[43]

f) Gwladolion o Wcrain a gefnogwyd drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin[44], Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin[45] neu aelod o deulu agos[46] y person hwnnw, Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin[47]

---

[38] Rhaid iddynt fod wedi bod yn aelod o'r teulu ar y dyddiad pan wnaeth y person ei gais am loches.

[39] Ffoadur yw person a gydnabyddir gan y Swyddfa Gartref fel ffoadur, fel y disgrifir yng Nghonfensiwn Genefa 1951. Bydd person sy'n cael statws ffoadur fel arfer yn cael caniatâd i aros yn y DU am bum mlynedd, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros. Aelod o deulu ffoadur yw person sy'n briod, yn bartner sifil, neu'n blentyn i berson â statws ffoadur; neu blentyn priod neu bartner sifil y ffoadur. Rhaid i aelod teulu'r ffoadur fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad pan wnaeth y ffoadur ei gais am loches.

[40] Cyflwynwyd Diogelwch Dyngarol ym mis Ebrill 2003 i ddisodli'r polisi ynghylch Caniatâd eithriadol i ddod i mewn neu aros, a'i bwrpas yw diogelu unigolion nad ydynt yn gymwys i'w diogelu o dan y Confensiwn Ffoaduriaid. Gall y Swyddfa Gartref roi diogelwch dyngarol i rywun y maent yn tybio nad yw'n gymwys i gael lloches, ond sydd er hynny'n wynebu risg o niwed difrifol o'i ddychwelyd i'w wlad tarddiad.

[41] Caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yw caniatâd i aros yn y DU am resymau eithriadol. Rhoddir y caniatâd hwn weithiau i unigolyn nad yw'n gymwys i gael lloches ond y mae'r Swyddfa Gartref yn tybio y dylid caniatáu iddo aros am resymau eraill.

[42] Roedd caniatâd eithriadol i ddod i mewn neu aros yn ffurf ar statws mewnfudo a oedd yn arfer cael ei defnyddio cyn mis Ebrill 2003. Fe'i rhoddwyd i geiswyr lloches lle penderfynodd y Swyddfa Gartref nad oeddent yn bodloni'r diffiniad o ffoadur, fel y'i diffinnir yn y Confensiwn Ffoaduriaid, ond y dylid caniatáu iddynt aros yn y DU am resymau eraill.

[43] Mae caniatâd y tu allan i'r rheolau hyn yn cynnwys rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros am resymau eithriadol ac/neu dosturiol sydd y tu hwnt i gwmpas Rheolau Mewnfudo'r DU.

[44] Roedd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin yn galluogi ymgeiswyr i ymuno ag aelodau o'u teulu neu i ymestyn eu harhosiad yn y DU. Peidiodd y cynllun â derbyn ceisiadau o 19 Chwefror 2024 ymlaen.

[45] Mae'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin yn galluogi gwladolyn o Wcráin ac aelodau o'i deulu i ddod i'r DU os oes ganddo noddwr wedi'i enwebu o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin. O dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin rhaid i bawb wneud cais ar wahân, hyd yn oed plant sy'n teithio gydag aelod o'u teulu.

[46] Mewn perthynas â'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin neu Gynllun Noddi ar gyfer Wcráin mae aelod agos o'r teulu yn cynnwys:

- Priod neu bartner sifil
- Partner di-briod (yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas ers o leiaf dwy flynedd)
- Plentyn dan 18 oed
- Rhiant (i rai sydd dan 18 oed)
- Dyweddi neu ddarpar bartner sifil

[47] Lansiwyd y Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin ar 4 Chwefror 2025. Gall deiliaid fisa presennol y cynllun Wcráin wneud cais am ganiatâd i aros yn y DU am 18 mis ychwanegol, gyda'r un hawliau â'r cynlluniau presennol ar gyfer Wcráin. Bydd angen i unigolion wneud cais ar-lein pan fydd 28 diwrnod neu lai ar ôl nes i'w caniatâd cyfredol ddod i ben. Rhaid gwneud ceisiadau cyn i'r caniatâd fisa cyfredol ddod i ben.

g) ceiswyr lloches[48], gan gynnwys rhai â chais annerbyniol.[49]

13. Yn ogystal ag ystyried dysgwyr yn y categorïau a restrir yn y 3 pharagraff uchod, bydd Medr yn ystyried amgylchiadau eithriadol eraill.

a) y rhai sy'n dod gyda neu'n ymuno â'u rhieni neu eu priod neu bartneriaid sifil[50] sydd â hawl preswylio neu ganiatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU (neu sy'n dod gyda neu'n ymuno ag aelodau perthnasol o'u teulu, fel arfer rhieni, sy'n ddinasyddion y DU neu Iwerddon), neu'r rhai sy'n blant i ddiplomyddion

b) y rhai sy'n ddibynyddion i athrawon sy'n dod i'r DU ar gynllun cyfnewid athrawon

c) y rhai sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU (gan gynnwys y rhai a ddaeth i mewn i'r DU yn y 3 blynedd ddiwethaf nad yw neu nad oedd eu rhieni gyda hwy) sy'n ddinasyddion Prydeinig (neu Iwerddon) neu y mae eu pasbortau wedi'u hardystio (neu, fel rhan o newid i systemau mewnfudo digidol, naill ai hawlen breswylio fiometrig, neu statws digidol cyfatebol a/neu lythyr ardystio) naill ai i ddangos bod ganddynt hawl i breswylio yn y wlad hon neu i ddangos nad oes unrhyw gyfyngiadau ar eu hawl i weithio yn y DU

d) y rhai sy'n ddibynyddion i oedolion sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU y rhoddwyd hawliau mewnfudo iddynt fel gweithwyr i breswylio yn y DU

e) y rhai sy'n ddibynyddion i ddysgwyr tramor lle mae gan y rhiant neu warcheidwad cyfreithiol sydd gyda hwy fisa dysgwr (mae'r rhiant neu warcheidwad cyfreithiol sydd gyda hwy wedi'u heithrio rhag cyllid fel a nodir ym mharagraff 35)

f) ceiswyr lloches

g) y rhai sydd wedi cael caniatâd dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016 (diwygiad 'Dubs')

h) y rhai sydd wedi cael caniatâd Calais i aros

i) y rhai (gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches) a roddir yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol neu'r rhai sy'n cael cymorth adran 4

14. Yn ogystal ag ystyried dysgwyr yn y categorïau a restrir yn y 3 pharagraff uchod, bydd Medr yn ystyried amgylchiadau eithriadol eraill. Pan fo darparydd yn credu y dylai dysgwr gael eu hystyried ar gyfer cyllid ôl-16 dan amgylchiadau eithriadol, rhaid iddo gysylltu â Medr i gael arweiniad cyn hawlio cyllid.

---

[48] Diffinnir ceisiwr lloches fel rhywun sydd wedi cyflwyno cais am loches yn y DU sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, neu sydd wedi'i farnu'n annerbyniol gan y Swyddfa Gartref. Bydd ceiswyr lloches a'u dibynyddion yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16, ar yr amod eu bod yn derbyn cymorth o dan unrhyw un o'r canlynol:

- Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Deddf Plant 1989
- Deddf Cymorth Gwladol 1498

[49] Bydd ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt ond sy'n gymwys ac wedi cael cymorth o dan Adran 4 o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 hefyd yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16. Mae Medr yn ystyried bod pob ceisiwr lloches 16-18 oed yn gymwys i dderbyn cyllid, gan gynnwys unrhyw bobl ifanc 16-18 sy'n ceisio lloches yn ddigwmni, a'r rhai a gaiff eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol.

[50] Dylai pob cyfeiriad cymhwystra at briod gael eu darllen yn awr fel rhai sy'n cynnwys person sydd wedi cyfranogi naill ai mewn priodas ffurfiol a gydnabyddir gan y wladwriaeth neu seremoni partneriaeth sifil a gydnabyddir gan y wladwriaeth.

## F. AEE, Y Swistir a'r Tiriogaethau Tramor

15. I ddibenion cymhwystra ar gyfer cyllid yn unig, rydym wedi diffinio AEE ar 31 Rhagfyr 2020 fel ardal sy'n cynnwys y Swistir, yn ogystal â holl aelodau'r UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy a phob un o'u tiriogaethau tramor a restrir yn Atodiad B. Mae dysgwyr sy'n ddinasyddion rhai o Diriogaethau Tramor Prydain yn gymwys i gael cyllid. Bydd dinasyddion rhai Tiriogaethau Tramor Ewropeaidd hefyd yn gymwys i gael cyllid ond dim ond os gwnaethant symud i'r DU cyn 1 Ionawr 2021. Caiff tiriogaethau cymwys eu rhestru yn Atodiad B.

## G. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

16. Ni fyddai rhywun y mae 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' wedi'i gynnwys yn y stamp ar eu pasbort yn torri eu hamodau mewnfudo pe baent yn cael mynediad at addysg a gyllidir gan y wladwriaeth yn y DU. Diffinnir 'cyllid cyhoeddus' yn y rheolau mewnfudo, ac nid yw'r budd-daliadau a'r gwasanaethau a restrir yn cynnwys addysg nac unrhyw gyllid addysg. Felly nid yw'r amod hwn mewn pasbort yn gwneud unrhyw wahaniaeth i gymhwystra dysgwr, y mae'n rhaid ei bennu dan y meini prawf cymhwystra arferol a ddisgrifir yn y paragraffau uchod.

## H. Oedran

17. Mae dysgwr 16 oed yn ddysgwr sy'n 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd neilltuol honno. Mae dysgwyr o'r fath fel arfer yn gymwys i gael cyllid ôl-16 Medr, yn amodol ar reoliadau eraill yn y canllawiau hyn.

18. Er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer dysgwyr unigol yn ystod rhaglen ddysgu, defnyddir diffiniad ehangach gan y cyrff cyllido. Bydd dysgwr a oedd yn 16 oed ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn gyllido pan ddechreuodd raglen ddysgu, fel y'i cofnodwyd ar ei gytundeb dysgu, yn parhau i gael ei gyllido nes i'w raglen ddysgu ddod i ben.

19. Mae rhaglen ddysgu'n cynnwys holl weithgareddau dysgwr sy'n arwain at set o ddeilliannau y cytunwyd arnynt â'r dysgwr fel rhan o'u proses gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG). Gall rhaglen ddysgu gynnwys un neu fwy nag un nod dysgu a gall rychwantu mwy nag un flwyddyn gyllido.

## I. Dysgwyr dan 16

20. Yng Nghymru, gall dysgwr adael yr ysgol yn gyfreithlon ar ddydd Gwener olaf mis Mehefin, cyn belled â'u bod nhw'n 16 oed erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno. I ddibenion cyllid, mae 'dan 16' yn golygu dan 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd benodol honno.

21. Mae Medr yn cynghori darparwyr i gynnwys yr ysgol a'r ALI mewn trafodaethau pan fo rhieni'n ceisio cofrestru person ifanc o oedran ysgol gorfodol ar raglen amser llawn, a bod y person ifanc hwnnw wedi bod mewn darpariaeth a gyllidwyd gan ALI (ysgol a gynhelir, darpariaeth amgen neu 'addysg heblaw yn yr ysgol') neu mewn academi neu ysgol rydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai darparydd sy'n dymuno cofrestru dysgwr dan 16 oed ar 31 Awst geisio cyllid gan yr ALI, yr ysgol neu'r academi os yn briodol.

22. Ni fydd Medr ond yn cyllido darpariaeth ar gyfer dysgwyr o oed ysgol gorfodol drwy gyllid ôl-16 yn yr achosion canlynol:

   i. os yw'r dysgwr yn cymryd rhan mewn Prentisiaeth Iau; a
   ii. rhaid i’r ddarpariaeth a’r cyfleusterau (yn rhai ar gyfer addysgu ac yn rhai eraill) fod yn gydnaws ag oedran, gallu a thueddfryd y dysgwr; a
   iii. os yw'r rhiant/gwarcheidwad y dysgwr a’r ALl yn gwybod am y cofrestriad ac yn cytuno ag ef.

23. Lle bo’r holl amgylchiadau uchod yn berthnasol, does dim angen i SABau gysylltu â Medr i gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer cyllid cyn sefydlu ymrwymiad.

24. Lle bo dysgwr dros oedran ysgol gorfodol yn mynychu cwrs astudio y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft drwy ymrestru ar gwrs nos gyda choleg AB neu ddarparydd dysgu i oedolion, ni fydd y ddarpariaeth honno’n gymwys ar gyfer cyllid ôl-16.

25. Ni fydd Medr yn cyllido sefydliadau AB yn uniongyrchol ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru fel disgyblion amser llawn yn unrhyw ysgol ac sy’n dymuno dilyn rhan o’u rhaglen mewn sefydliad AB yn ystod oriau ysgol. Dan amgylchiadau o’r fath, beth bynnag fo oedran y dysgwr, dylid trin y ddarpariaeth hon fel darpariaeth gydweithredol neu gyswllt, a disgwylir i’r ysgol dalu costau’r ddarpariaeth.

## J. Dysgwyr o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

26. Mae gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu trefniadau cyllido eu hunain. Gall fod amgylchiadau eithriadol lle, ar rai achlysuron, bydd dysgwyr unigol o’r Alban neu Loegr yn dymuno teithio i Gymru neu breswylio yng Nghymru i astudio pan na chynigir darpariaeth arbenigol yn lleol.

27. Mae dysgwyr sy’n dod dros y ffin o Loegr i fynychu'r chweched dosbarth yn ysgolion yr Awdurdod Lleol neu sefydliadau Addysg Bellach cyfagos yn gymwys i gael cyllid ôl-16, yn unol â chytundebau cilyddol anffurfiol â’r Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA). Fodd bynnag, <u>ni chaiff</u> darparwyr farchnata’u darpariaeth yn weithredol i ddysgwyr sy’n hanu o Loegr.

28. Rhaid ystyried bod dysgwyr o bob cenedligrwydd sy’n ddibynyddion i aelodau presennol o Luoedd Arfog Prydain ac yn astudio yng Nghymru yn gymwys i gael cyllid drwy gydol y cyfnod yn y Lluoedd Arfog ar yr un sail â dysgwyr eraill sy’n byw yn gyfreithlon yng Nghymru os ydynt yn mynychu darparwyr a gyllidir.

## K. Dysgwyr Addysg Uwch (AU)

29. Nid yw Medr yn cyllido cymwysterau AB na rhaglenni eraill ar gyfer unigolion na grwpiau o ddysgwyr AU. Os oes ar grŵp o ddysgwyr angen, er enghraifft, sgiliau allweddol, gwersi ychwanegol mewn mathemateg neu ddyfarniadau hyfforddi chwaraeon, er mwyn ennill cymwysterau AU, byddai hyn fel arfer yn cael ei gyllido o’r adnoddau a ddarperir ar gyfer y Rhaglenni AU.

### L. Ymrestru gyda mwy nag un darparydd a gyllidir gan Medr

30. Er bod Medr yn cydnabod y gall dysgwyr weithiau ymrestru gyda mwy nag un darparydd, ni chaiff grwpiau o ddysgwyr sydd wedi ymrestru ar raglen amser llawn mewn un darparydd ymrestru i ddibenion cyllido ar unrhyw raglenni gyda darparwyr eraill, gan gynnwys drwy ddarpariaeth wedi'i his-gontractio.

### M. Darpar rieni

31. Ni ddylai dysgwyr sy'n disgwyl bod yn absennol yn anochel o ddysgu am gyfnod o amser, megis absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, gael eu hannog i beidio ag ymrwymo i gytundeb dysgu. Dylai darparwyr sicrhau bod dyddiadau dechrau a gorffen arfaethedig rhaglen y dysgwr, y cytunir arnynt ar ddechrau'r rhaglen, yn adlewyrchu hyd arfaethedig y cyfnod astudio ar y cyfan.

### N. Darpariaeth i Droseddwyr

32. Gall Sefydliadau AB sy'n cyflenwi rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol i ddysgwyr yng ngharchardai Cymru drin carcharorion fel dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn cyllid prif ffrwd Medr, ar yr amod bod canllaw / manyleb y rhaglen wedi'u bodloni'n llawn.

### O. Dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cyllid Medr

33. Ni fydd dysgwyr ond fel arfer yn gymwys ar gyfer un fframwaith cyllid ôl-16 Medr ar y tro, oherwydd bwriedir i'r cyllid a ddarperir dalu am eu holl raglen ddysgu. Er enghraifft, ni fydd dysgwr o'r chweched dosbarth yn gymwys ar gyfer unrhyw gyllid arall gan Medr; dylid hawlio am yr holl raglenni addysg ychwanegol sy'n briodol i ddysgwyr unigol drwy eu darparydd amser llawn. Mae'r holl ddysgwyr sy'n mynychu darparwyr preifat lle telir ffi yn anghymwys ar gyfer cyllid ôl-16 yn yr holl ddarparwyr a gaiff eu cyllido gan Medr, ac unrhyw un o'u his-gontractwyr.

34. Mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU amser llawn yn anghymwys ar gyfer cyllid ôl-16.

35. Mae'r holl ddysgwyr y mae gofyn iddynt fod â Chadarnhad Derbyn i Astudio er mwyn cael fisa Dysgwr y Swyddfa Gartref i astudio yn y DU yn anghymwys i gael cyllid gan Medr. Mae dysgwyr o dramor a fu'n mynychu ysgol lle mae dysgwyr yn talu ffioedd neu ysgol nas cynhelir, ac mai dyna oedd eu prif reswm dros breswylio yng Nghymru, yn anghymwys fel arfer i gael cyllid. Nid yw cyfnodau a dreuliwyd yn y DU fel dysgwyr tramor sy'n talu ffioedd mewn addysg gyhoeddus neu breifat yn cyfrif tuag at y cyfnod o 3 blynedd o breswyliad cyfreithlon yn y DU sy'n ofynnol fel arfer gan bob dysgwr tramor i fod yn gymwys i gael cyllid gan Medr.

36. I ddibenion cyllid, y diffiniad o ddysgwr 'tramor' fydd un nad yw'n bodloni'r meini prawf sy'n diffinio dysgwr 'cartref' fel a nodir ym mharagraffau 11 i 14. Nid yw dysgwyr tramor yn gymwys i gael cyllid a gall darparwyr godi ffioedd dysgu sy'n adennill costau llawn ar y dysgwyr hyn.

37. Mae'r holl ddysgwyr sy'n byw yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn anghymwys i gael cyllid gan Medr gan bod y cyfrifoldeb am gyllido ar gyfer eu rhaglenni'n aros gyda'u llywodraethau annibynnol hwy eu hunain.

## P. Tystiolaeth o Gydymffurfio â Rheolau Cymhwystra Dysgwyr

38. Mae Medr yn cydnabod y bydd gweithdrefnau a phwyslais gwahanol yn briodol i fathau gwahanol o ddysgwyr. Mater i'r darparwyr yw penderfynu pa weithdrefnau i'w cynnal i sicrhau bod dysgwyr yn gymwys i gael cyllid. Os bydd darparwyr yn dewis peidio â dilyn unrhyw weithdrefnau bydd cyllid eu rhaglenni yn y fantol. Gan hynny, rhaid bod gan ddarparwyr dystiolaeth archwiliadwy o'r canlynol:

    a) y broses a ddefnyddiwyd ar gyfer ymrestru
    b) y cofnod o weithgarwch addysgu neu gymorth ar gyfer pob dysgwr
    c) tystiolaeth o oedran y dysgwr i roi cymorth i ddiogelu'r holl ddysgwyr sy'n mynychu'r darparydd

39. Rhaid i ddarparwyr graffu ar geisiadau i astudio gan yr holl ddysgwyr i sicrhau eu bod yn gymwys i gael cyllid Medr yn ôl yr holl gyngor yn yr adran hon ac i ategu achos y dysgwr i gael eu hystyried fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

40. Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, rydym yn cynghori darparwyr i gofnodi dogfennau, yn hytrach na chymryd copïau, i brofi cymhwystra. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ddogfennol berthnasol i ategu cymhwystra dysgwyr unigol a ganiatawyd i ddysgwyr nad ydynt wedi bod yn preswylio fel arfer am 3 blynedd. Pan fo darparwyr yn cofnodi eu bod wedi gweld dogfennaeth, rhaid iddynt fod yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r dogfennau y maent yn eu cymeradwyo. Mae Medr yn cynghori darparwyr nad oes angen iddynt wneud copïau o basbortau ac na ddylent ond cofnodi rhifau neu gyfeirnodau pasbortau pan fo hynny'n angenrheidiol.

41. Bydd gan wladolion tramor ddogfennaeth gan y Swyddfa Gartref sy'n amlinellu eu statws, er enghraifft RS, HP, DL neu ELE/ELR yn y DU. Bydd ceiswyr lloches yn gallu dangos cerdyn cofrestru cais a ddyroddir ar, neu'n agos at, ddyddiad eu cais am loches. Bydd y dyddiad dyroddi wedi'i gofnodi ar gerdyn cofrestru'r cais. Gall dysgwyr o'r UE, AEE neu'r Swistir ddefnyddio gwasanaeth ar-lein i brofi eu statws mewnfudo. Gall darparwyr barhau i dderbyn pasbortau a chardiau adnabod dinasyddion yr UE fel tystiolaeth o'u statws mewnfudo tan 30 Mehefin 2021.

42. Rhaid i adrannau perthnasol darparwyr wirio ffurflenni cofrestru i weld a gasglwyd tystiolaeth o statws a chymhwystra preswylio'r dysgwr.

## Q. Cytundeb Dysgu a Ffurflenni Ymrestru

43. Mae Medr yn ystyried ei bod hi'n hanfodol bod gan ddysgwyr fynediad at wybodaeth eglur a llawn am unrhyw daliadau a godir am eu rhaglen cyn ymrestru a'u bod yn cael cyngor ac arweiniad cychwynnol. Canlyniad llwyddiannus cyngor ac arweiniad cychwynnol yw cytundeb dysgu neu ffurflen gofrestru wedi'i lofnodi gan y dysgwr a'r darparydd. Gan gydnabod y gall fod ar wahanol fathau o ddysgwyr angen dulliau gwahanol o roi cyngor ac arweiniad, rhaid i'r cytundeb dysgu/ffurflen gofrestru (naill ai fel ffurflenni ar wahân neu ffurflen gyfunol) ddarparu cadarnhad bod y meysydd bras canlynol wedi cael sylw:

    a) y dewis o raglen ddysgu
    b) gofynion mynediad ar gyfer pob nod dysgu o fewn y rhaglen ddysgu
    c) asesiad o addasrwydd y rhaglen ddysgu
    d) cymorth i'r dysgwr, a

e) natur y gweithdrefnau sy'n rhan o'r broses o roi cyngor ac arweiniad

44. Rhaid i ddarparydd gadw cytundeb dysgu ac/neu ffurflen ymrestru wedi'i l/llofnodi ar ran y darparydd a chan y dysgwr fel tystiolaeth o gydymffurfio i gefnogi hawliadau am gyllid ar gyfer rhaglenni amser llawn. Er bod rhaid i bob dysgwr a gyllidir gan Medr fod â chytundeb dysgu, dylai'r manylder fod yn gymesur â hyd y rhaglen ddysgu. Mae Medr yn ymwybodol y gall darparwyr fod wedi buddsoddi mewn systemau cofnodi llofnodion electronig ac mae'r rhain yn dderbyniol lle bo'r dysgwr wedi gwneud llofnod electronig neu ddigidol a bod y ddogfen hefyd wedi cael ei llofnodi'n briodol gan aelod o staff y darparydd. Mewn achosion o'r fath rhaid i'r dysgwyr gael copi electronig neu bapur o'r ddogfen y maent wedi'i llofnodi. Rydym wedi cynnwys ein cyngor safonol ynghylch sut i ddangos tystiolaeth o lofnodion electronig yn Atodiad C.

45. Rhaid i ddarparwyr sicrhau nad ydynt yn recriwtio dysgwyr sydd eisoes wedi ymrestru ar raglenni astudio gyda darparwyr eraill a gyllidir gan Medr nac yn gweithredu mewn unrhyw ffordd i ddenu dysgwyr i ffwrdd oddi wrth raglenni astudio presennol.

46. Rhaid i'r cytundeb dysgu a/neu'r ffurflen gofrestru gynnwys y manylion allweddol canlynol:

a) enw'r dysgwr, eu cyfeiriad (gan gynnwys y cod post a'r amser a dreuliwyd yn y cyfeiriad hwnnw), eu hoedran a'u statws preswylio, a fydd yn dynodi a yw'r dysgwr yn ddysgwr cartref ynteu tramor. Ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi bod yn preswylio yn y DU am y 3 blynedd cyn i'w rhaglen ddechrau, rhaid i ddarparwyr allu dangos tystiolaeth arall o gymhwystra'r dysgwyr fel a nodir ym mharagraffau 12 i 14
b) deilliannau'r rhaglen ddysgu a deilliannau disgwyliedig y dysgwyr, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer yr holl nodau dysgu
c) nifer yr oriau arfaethedig neu weithgareddau arfaethedig eraill a gyllidir ym mhob un o flynyddoedd y rhaglen
d) lle mae darpariaeth, gan gynnwys Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar gyfer y dysgwr, yn cael ei chyflwyno gan is-gontractwr dylai'r darparydd a gyllidir gan Medr wneud yn siŵr bod Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad o ansawdd cyfwerth yn cael eu cyflenwi i'r dysgwyr hyn
e) rhaid cofnodi tystiolaeth o'r broses asesu ac arweiniad a ddefnyddiwyd wrth lunio'r cytundeb dysgu
f) rhaid bod pob dysgwr wedi gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru (y datganiad diogelu data gynt) yn ystod eu proses ymrestru
g) rhaid cynnwys cadarnhad nad yw dysgwyr rhan-amser wedi'u hymrestru ar unrhyw raglenni astudio amser llawn a gyllidir mewn darparwyr eraill o fewn y dogfennau hyn. Rhaid i ddarparwyr ddefnyddio'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu i wirio mai ond eu sefydliad hwy eu hunain y mae'r dysgwyr hynny'n ei fynychu

47. Rhaid i'r holl ddarparwyr wneud yn siŵr eu bod hwy a'u holl is-gontractwyr yn deall y rheolau ar gymhwystra dysgwyr yn llawn.

## Manylion cyswllt

Am unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y ddogfen hon, cysylltwch â Medr: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

## Atodiad A: Cylch cynllunio a chyllido

Awst 2025: Medr yn derbyn data CYBLD gan Lywodraeth Cymru ac yn dechrau gweithio ar y broses ddyrannu ar gyfer 2026/2027

Medi 2025: Creu ciplun Rhewi Data Cyllid LLWR – a ddefnyddir ar gyfer ymarferion archwilio, monitro a hawlio yn ôl blwyddyn gyllido 2025/2026

Tachwedd 2025: Medr yn derbyn cyllideb ddangosol ar gyfer 2026-2027 gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno dyraniadau dangosol i fwrdd Medr

Rhagfyr 2025: Mesurau perfformiad Rhewi Data LLWR – yn cael eu defnyddio i gynhyrchu deilliannau cyrchfannau, datganiadau ystadegol ac adroddiadau ar fesurau cyson ar gyfer dysgwyr 2025/26

Ionawr 2026: Medr yn derbyn y llythyr cyllido swyddogol gan Lywodraeth Cymru ac yn hysbysu darparwyr am ddyraniadau dangosol

Ionawr / Chwefror / Mawrth 2026: Dosbarthu Templedi Cynllunio i'w cwblhau gan ddarparwyr

Chwefror / Mawrth / Ebrill 2026: Dychwelyd templedi wedi'u cwblhau i Medr

Mawrth 2026: Cyflwyno papur cyllideb terfynol i fwrdd Medr gan y Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad; yna rhannu gwybodaeth am y buddsoddiad â'r ALlau a'r SABau

Mawrth 2026: Medr yn cyhoeddi data ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer 2024/25

Ebrill 2026: *Cyhoeddiad Cyllid, Cyfeiriadur Rhaglenni, Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau* ar gyfer 2026/27, a dogfennau manyleb perthnasol eraill ar gael ar wefan Medr

Mai 2026: Rhannu *Telerau ac Amodau Grant* 2026/27 â darparwyr

Mai / Mehefin 2026: Medr yn dechrau cyfarfodydd cynllunio â darparwyr

Awst 2026: Darparwyr yn dechrau derbyn y cyntaf o 12 taliad ar gyfer y flwyddyn academaidd – gwneir taliadau bob mis (20fed o bob mis) hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd (Gorffennaf 2027)

Medi 2026: Creu ciplun Rhewi Data LLWR – a ddefnyddir ar gyfer ymarferion archwilio, monitro ac hawlio yn ôl blwyddyn academaidd 2025/2026

Rhagfyr 2026: Creu ciplun monitro cyllid cychwynnol 2026/2027 – a ddefnyddir i wirio a oes cynnydd mewn cyfranogiad

Rhagfyr 2026: Rhewi Data LLWR ar gyfer mesurau perfformiad - yn cael eu defnyddio i gynhyrchu deilliannau cyrchfannau, datganiadau ystadegol ac adroddiadau ar fesurau cyson ar gyfer dysgwyr 2025/26

Mawrth 2027: Medr yn cyhoeddi data ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer 2025/26

## Atodiad B: Diffinio tiriogaethau dibynnol yr UE, yr AEE a thiriogaethau tramor cymwys ar 31 Rhagfyr 2020

Mae'r atodiad hwn yn rhestru'r gwledydd a/neu'r ardaloedd cymwys sy'n sefydlu cymhwystra dysgwyr ar gyfer Cyllid Ôl-16 Medr.

### A. Aelod-wladwriaethau'r UE

- Almaen, Yr
- Awstria
- Bwlgaria
- Croatia
- Cyprus
- Denmarc
- Eidal, Yr
- Estonia
- Ffindir, Y
- Ffrainc
- Gweriniaeth Tsiec
- Gwlad Belg
- Gwlad Groeg
- Gwlad Pwyl
- Hwngari
- Iseldiroedd, Yr
- Iwerddon
- Latfia
- Lithwania
- Lwcsembwrg
- Malta
- Portiwgal
- Rwmania
- Sbaen
- Slofacia
- Slofenia
- Sweden

### B. Nodiadau ar rai tiriogaethau sydd o fewn yr UE

Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi canllawiau pellach ynghylch y tiriogaethau hynny a ystyrir yn rhan o'r UE i ddibenion cymhwystra cyllido i'r rhai a symudodd i'r DU cyn 1 Ionawr 2021:

a) Y Ffindir: yn cynnwys Ynysoedd Åland
b) Ffrainc: Mae Adran Dramor Ffrainc (DOMS) (Guadeloupe, Martinique, Guiana Ffrengig (Guyana), Réunion a Saint-Pierre et Miquelon) yn rhan o Ffrainc fetropolitan ac yn rhan o'r UE
c) Yr Almaen: yn cynnwys tiriogaeth yr hen Weriniaeth Ddemocrataidd Almaenig cyn uno'r Almaen. Mae porthladd di-dreth Heligoland wedi'i gynnwys yn yr UE
d) Portiwgal: Mae Madeira a'r Azores yn rhan o'r UE. Nid yw Macao wedi'i chynnwys
e) Sbaen: Mae Ynysoedd y Baleares, yr Ynysoedd Dedwydd, Ceuta a Melilla yn rhan o'r UE

f) Tiriogaethau eraill: Nid yw Andorra, Monaco, San Marino na'r Fatican yn rhan o'r UE

## C. Aelod-wladwriaethau'r AEE

Mae hyn yn cynnwys holl wledydd a thiriogaethau'r UE a restrir uchod, ynghyd ag Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Er symlrwydd, i ddarparwyr sy'n gorfod asesu dysgwyr ar gyfer cymhwystra ar gyfer cyllid Medr, mae'r Swistir yn cael ei thrin fel pe bai o fewn yr AEE. Yn ôl y gyfraith, nid yw'r Swistir yn rhan o'r AEE a gydnabyddir yn ffurfiol, ond mae ei dinasyddion yn gymwys yn yr un modd o dan amryw o gytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan lywodraethau'r DU a'r Swistir.

## D. Tiriogaethau tramor cymwys

Bydd y rhain naill ai'n diriogaethau tramor y DU neu'r UE y bydd Medr yn caniatáu i ddarparwyr hawlio cyllid ar eu cyfer (gweler paragraff 15 yn y prif ganllawiau).

*Tiriogaethau Tramor Prydain sy'n Gymwys*

- Anguilla
- Bermuda
- Tiriogaeth Antarctig Prydain
- Tiriogaeth Cefnfor India Prydain
- Ynysoedd Prydeinig y Wyryf
- Ynysoedd Cayman
- Ynysoedd Falkland
- Gibraltar
- Montserrat
- Ynysoedd Pitcairn, Ducie ac Oeno
- Ynys Henderson
- De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De
- Sant Helena a'i Thiriogaethau Dibynnol
- Ynysoedd Turks a Caicos

*Tiriogaethau tramor cymwys aelod-wladwriaethau eraill yr UE (i'r rhai a symudodd i'r DU cyn 1 Ionawr 2021)*

a) Denmarc
   - Yr Ynys Las ac Ynysoedd Ffaro

b) Ffrainc
   - Caledonia Newydd a thiriogaethau dibynnol
   - Polynesia Ffrengig
   - Wallis a Fortuna
   - Mayotte
   - Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc
   - St Barthélemy

c) Yr Iseldiroedd
   - Antilles (Bonaire, Curacao, Saba, Sant Eustatius a St Maarten) ac Aruba

## Atodiad C: Llofnodion electronig

### A. Tystio llofnodion electronig

Rydym yn derbyn tystiolaeth electronig, gan gynnwys llofnodion electronig/digidol. Lle bo'r dystiolaeth yn electronig, rhaid ichi gael systemau a phrosesau ehangach ar waith i'ch sicrhau bod dysgwyr yn bodoli ac yn gymwys i dderbyn cyllid.

Mae llofnodion electronig a digidol yn dderbyniol. Nid ydym yn nodi pa un y dylid ei ddefnyddio, ar yr amod bod proses ddiogel i gael a storio llofnodion yn cael ei dilyn.

Diffinnir llofnod electronig fel unrhyw symbol neu broses electronig sy'n gysylltiedig ag unrhyw gofnod neu ddogfen lle mae bwriad i lofnodi'r ddogfen gan unrhyw barti dan sylw. Gall llofnod electronig fod yn unrhyw beth o focs gwirio i lofnod.

Llofnod digidol yw dogfen â llofnod electronig sydd wedi'i diogelu gan broses sy'n ei gwneud yn anwrthbrofol. Ôl bys digidol ydyw sy'n dal y weithred o lofnodi drwy weithredu mesurau diogelwch ar ddogfen. Fel arfer mae dogfennau sydd â llofnod digidol wedi'i fewnosod yn hynod ddiogel ac ni ellir cael mynediad atynt na'u diwygio'n hawdd.

Os delir llofnod electronig neu ddigidol, gan unrhyw barti am unrhyw reswm, rhaid ichi sicrhau nad oes modd ei wrthbrofi. Mae hyn yn cynnwys diffiniadau o lofnodion gwlyb a sych. Rhaid cael systemau a phrosesau ar waith roi sicrwydd inni nad yw'r llofnod gwreiddiol wedi cael ei newid. Lle bo angen adnewyddu unrhyw ddogfen, a chymryd llofnod newydd, rhaid nodi'n glir pryd y daw'r ddogfen newydd i rym, a rhaid cadw'r naill ddogfen a'r llall.

### B. Tystiolaeth amgen ar gyfer llofnodion electronig neu ddigidol

Caiff llofnod gwlyb ei greu pan fydd rhywun yn 'marcio' dogfen yn wirioneddol. Os nad oes gan ddarparydd unrhyw systemau na phrosesau digidol neu electronig ar waith i ddal llofnod dysgwr neu gyflogwr, bydd yn ofynnol cael llofnod gwlyb mewn amgylchiadau arferol ar gyfer recriwtio a thystiolaeth o ddysgu parhaus.

Yn achos nifer fach o ddysgwyr sydd dan anfantais, mae Medr yn cydnabod y gallai darparwyr ei chael hi'n anodd cael llofnodion gwlyb gan y dysgwr a'r cyflogwr wrth gyflenwi hyfforddiant ac/neu recriwtio. Os nad oes gan ddarparwyr systemau a phrosesau ar waith ar gyfer llofnodion electronig/digidol, byddwn yn caniatáu casglu cadarnhad/tystiolaeth drwy e-bost, fel y manylir isod.

I ddibenion cydymffurfio â gofynion cyllido, byddwn yn disgwyl cael cofnod o gydnabod neu fabwysiadu neges neu ddogfen electronig ddilys. Mae tystiolaeth amgen dderbyniol yn cynnwys:

- e-bost gan y dysgwr (neu gyfeiriad e-bost y cyflogwr ar gyfer profiad gwaith) gyda manylion y cadarnhad a'u henw wedi'i deipio ar ddiwedd y neges
- enw wedi'i deipio ar ffurflen electronig neu ddogfen a anfonwyd drwy e-bost gan y dysgwr
- dogfen wedi'i sganio a'i llofnodi sydd ynghlwm wrth e-bost gan y dysgwr; neu
- lun a dynnwyd ar gamera/cyfrwng digidol o'r ddogfen wedi'i llofnodi sydd ynghlwm wrth e-bost gan y dysgwr

Ni fyddwn ond yn caniatáu i ddarparwyr ddefnyddio'r math hwn o gadarnhad electronig (fel y manylir uchod) os nad oes unrhyw brosesau digidol neu electronig eraill ar gael i'w defnyddio. Mae'r cyngor hwn yn cydnabod y gallai rhai dysgwyr dan anfantais gael anawsterau wrth fodloni'r gofynion arferol. Ni ddylid defnyddio hyn fel tystiolaeth amgen yn rhan gyffredinol o brosesau busnes fel arfer y sefydliad. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod yr holl dystiolaeth amgen sy'n disodli llofnodion gwlyb a dderbynnir yn ddilys ac yn anwrthbrofol, a bod y dystiolaeth yn cael ei chadw i ddibenion cydymffurfio â gofynion cyllid ac archwilio.

## Atodiad D: Rhestr o ddarpariaeth gyffredin ar gyfer hyfforddiant diogelwch yn y gweithle

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr. Dylid hefyd ystyried unrhyw gymwysterau neu hyfforddiant nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol, y bwriedir iddynt gefnogi iechyd a diogelwch yn y gweithle o fewn y categori hwn - ni fyddant felly yn gymwys ar gyfer cyllid Medr.

- Gweithio ar Uchder
- Ymwybyddiaeth o Asbestos
- Olwynion Sgraffinio
- COSHH / Egwyddorion COSHH
- Cymorth Cyntaf Brys / Cymorth Cyntaf yn y Gwaith
- Codi a Chario
- Diogelwch Bwyd / Hylendid Bwyd
- Asesu Risg
- Goruchwylio Timau'n Ddiogel
- Diogelwch Tân / Asesu Risg Tân
- Diogelwch ar Ysgol
- Asesydd DSE
- Dirgrynu Llaw a Braich
- Ymwybyddiaeth o Legionella
- Diogelwch Sgaffaldiau
- Diogelwch Safle
- Mannau Cyfyngedig
- Client Contractor National Safety Group (CCNSG) Safety Passport
- Cymwysterau CompEx
- Cyfarpar Diogelu Personol
- Tyrau PASMA / Mynediad
- Gweithio / Rheoli'n Ddiogel IOSH
- Cyfres o gymwysterau Iechyd a Diogelwch NEBOSH
- Cynlluniau Cardiau Swydd lle mae Prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn ofyniad hanfodol

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government